

APP ar blismona etholiadau

Deunydd cyfeirio

Deunydd cyf 1 Atodlen o droseddau a chosbau sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda

Deunydd cyf 2 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Deunydd cyf 3 Model memorandwm o ddealltwriaeth

Deunydd cyf 4 Camau allweddol yn y broses etholiadol

Deunydd cyf 5 Templed llythyr priif weithredwr/priif gwnstabl

Deunydd cyf 6 Templed llythyr hysbysiad am droseddau argraffnod DCyB

Deunydd cyf 7 Canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â thystiolaeth

Deunydd cyf 8 Enghraifft o argraffnod a rheolau cyffredinol argraffnodau

Deunydd cyf 9 Cysylltiadau allweddol

Deunydd cyf 10 Honiadau blaenorol

Deunydd cyf 11 Rhestr wirio cysylltiadau SPOC etholiad yr heddlu/awdurdod lleol

Deunydd cyf 12 Cynnal y drefn tu allan i orsafoedd pleidleisio

Deunydd Cyfeirnod 1

Atodlen o droseddau a chosbau sy'n perthyn i etholiadau a refferenda

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1983

Bydd gan bob etholiad neu refferendwm ei ddeddfwriaeth ei hun on bydd troseddau fel arfer yn adlewyrchu'r rheiny yn RPA 1983

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
13D(1)	Gwybodaeth cofrestru ffug Darparu, i unrhyw bwrpas sy'n gysylltiedig â chofrestru etholwyr, wybodaeth ffug i swyddog cofrestru Nid yw person yn cyflawni trosedd yn unol ag Adran 13D(1) os nad oeddent yn gwybod, ac nad oedd ganddynt reswm i amau, bod y wybodaeth yn ffug	Unrhyw berson		Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy anghyfyngedig Noder: pan fydd adran 281(5) Deddf Cyfiawnder Troseddol yn dod i rym, y cyfnod mwyaf fydd 51 wythnos
13D(1A)	Gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â phleidleisio drwy'r post/pleidleisio drwy ddirprwy Darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais y mae un o'r canlynol yn perthyn iddo: a. Ble mae person yn gwneud cais i'r swyddog cofrestru i bleidleisio drwy'r bost mewn etholiadau Seneddol, mewn etholiadau llywodraeth leol neu yn y ddau (ai am gyfnod amhenodol ai am gyfnod neilltuol a benodir yn eu cais), neu Ble mae person yn gwneud cais i'r swyddog	Unrhyw berson		Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy anghyfyngedig Noder: pan fydd adran 281(5) Deddf Cyfiawnder Troseddol yn dod i rym, y cyfnod mwyaf fydd 51 wythnos

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiadau Seneddol, mewn etholiadau llywodraeth leol neu yn y ddau (ai am gyfnod amhenodol ai am gyfnod neilltuol a benodir yn eu cais), paragraff 3(1) neu (2), Atodlen 4, RPA 2000</p> <p>b. Ble mae person yn gwneud cais i'r swyddog cofrestru i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol neilltuol neu ble mae person yn gwneud cais i'r swyddog cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol neilltuol, paragraff 4(1) neu (2), Atodlen 4, RPA 2000</p> <p>c. Ble mae person yn gwneud cais i'r swyddog cofrestru i bleidleisio drwy'r bost:</p> <p>i. fel dirprwy mewn etholiadau Seneddol, mewn etholiadau llywodraeth leol neu yn y ddau (ai am gyfnod amhenodol ai am gyfnod neilltuol a benodir yn eu cais), neu</p> <p>ii. fel dirprwy mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol neilltuol, paragraff 7(4), Atodlen 4</p> <p>Dydy person ddim yn cyflawni trosedd o dan Adran13D(1A) os nad oedden nhw'n gwybod, a doedd dim rheswm ganddyn nhw i amau, fod y wybodaeth yn ffug</p>			
60	<p>Cam-beronadu Pleidleisio'n bersonol neu drwy'r bost fel rhywun arall, neu bleidleisio'n bersonol neu drwy'r bost fel dirprwy i</p>	Unrhyw berson (sy'n cyflawni, sy'n cynorthwyo, sy'n	Arferion llwgr	Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at chwe mis o

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	berson maen nhw'n gwybod/mae ganddyn nhw ddigon o reswm i gredu fod y person wedi marw/yn ffug neu nad oes hawl ganddyn nhw i fod yn ddirprwy bellach	cyngtori neu sy'n caffael cyflawni'r drosedd o gam-bersonadu)		garchar Ar dditiad: dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar
61(1)	<p>Pleidleisio tra o dan anallu cyfreithiol</p> <p>a. Pleidleisio, neu wneud cais i bleidleisio, gan wybod eu bod yn amodol i anghymhwyster cyfreithiol</p> <p>b. Gwneud cais i benodi dirprwy gan wybod fod naill ai'r etholwr neu'r dirprwy yn amodol i anghymhwyster cyfreithiol</p> <p>c. Pleidleisio fel dirprwy dros berson maent yn gwybod ei fod yn amodol i anghymhwyster cyfreithiol</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(2)(a)	<p>Pleidleisio lluosog</p> <p>Pleidleisio fel etholwr mewn ffordd nad yw drwy ddirprwy naill ai:</p> <p>i. mwy nag unwaith yn yr un etholaeth mewn unrhyw etholiad Seneddol, neu fwy nag unwaith yn yr un ardal etholiadol mewn unrhyw etholiad llywodraeth leol, neu mewn mwy nag un etholaeth mewn etholiad cyffredinol Seneddol, neu mewn mwy nag un ardal etholiadol mewn etholiad cyffredin o gynghorwyr ar gyfer ardal lywodraeth leol nad yw'n ardal etholiadol sengl, neu</p> <p>ii. mewn unrhyw etholaeth/ardal etholiadol (nad yw'n ardal etholiadol sengl) pan yw penodiad</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>person mewn grym i bleidleisio fel eu dirprwy yn yr etholiad mewn rhyw etholaeth/ardal etholiadol arall</p> <p>Nid yw hyn yn perthyn mewn etholiadau Maerol yn Llundain ac etholiadau i Gynulliad Llundain</p>			
61(2)(b)	<p>Pleidleisio lluosog Pleidleisio fel etholwr yn bersonol mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol ble y mae hawl gennyhch bleidleisio ynddo drwy'r bost</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(2)(c)	<p>Pleidleisio lluosog Pleidleisio fel etholwr yn bersonol mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol, gan wybod fod person a benodwyd i bleidleisio fel eich dirprwy yn yr etholiad naill ai wedi pleidleisio eisoes yn bersonol neu sydd â hawl i bleidleisio drwy'r bost</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(2)(d)	<p>Pleidleisio lluosog Gwneud cais i berson gael ei benodi fel dirprwy i bleidleisio drosoch chi mewn etholiadau Seneddol heb wneud cais i ddileu penodiad blaenorol o drydydd person a oedd mewn grym ar y pryd neu heb dynnu yn ôl cais sydd yn yr arfaeth ar gyfer y fath benodiad</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(2A)	<p>Pleidleisio lluosog Mewn etholiadau Maerol Llundain ac etholiadau i Gynulliad Llundain, bleidleisio fel etholwr heblaw drwy ddirprwy fwy nag unwaith:</p> <p>a. yn yr un etholiad o Faer Llundain b. yn yr un etholiad o aelodau Llundain o Gynulliad</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>Llundain</p> <p>c. yn yr un etholiad o aelod etholaethol o Gynulliad Llundain (yn yr un etholaeth)</p> <p>d. mewn mwy nag un etholaeth Cynulliad neu mewn unrhyw etholaeth Cynulliad mewn etholiad cyffredin, neu mewn etholiad i ethol Maer Llundain gan bleidleisio fel etholwr heb fod yn ddirprwy pan yw penodiad person mewn grym i bleidleisio fel eu dirprwy yn yr etholiad mewn rhyw etholaeth arall o'r Cynulliad</p>			
61(3)	<p>Pleidleisio lluosog</p> <p>a. Pleidleisio fel dirprwy dros yr un etholwr naill ai:</p> <p>i. mwy nag unwaith yn yr un etholaeth mewn unrhyw etholiad Seneddol, neu fwy nag unwaith yn yr un ardal etholiadol mewn unrhyw etholiad llywodraeth leol, neu</p> <p>ii. mewn mwy nag un etholaeth mewn etholiad cyffredinol, neu mewn mwy nag un ardal etholiadol mewn etholiad cyffredin o gynghorwyr ar gyfer ardal lywodraeth leol nad yw'n ardal etholiadol sengl, neu</p> <p>b. Pleidleisio'n bersonol fel dirprwy dros etholwr mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol ble y mae hawl ganddyn nhw bleidleisio ynddo drwy'r bost, neu</p> <p>c. ... (wedi'i adalw)</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	d. Pleidleisio'n bersonol fel dirprwy dros etholwr mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol gan wybod fod yr etholwr wedi pleidleisio eisoes yn bersonol yn yr etholiad			
61 (3A)	Pleidleisio lluosog – Etholiadau Cynulliad Bydd person yn euog o drosedd os yw'n pleidleisio fel dirprwy dros yr un etholwr (a) mwy nag unwaith yn yr un etholiad ar gyfer Maer Llundain; (b) mwy nag unwaith yn yr un etholiad o aelodau Llundain o Gynulliad Llundain mewn etholiad arferol; (c) Mwy nag unwaith yn yr un etholaeth Cynulliad yn yr un etholiad o aelod etholaethaol o Gynulliad Llundain; neu (d) Mewn mwy nag un etholaeth Cynulliad yn yr un etholiad arferol.	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(4)	Pleidleisio lluosog Pleidleisio mewn etholiad Seneddol mewn unrhyw etholaeth (neu mewn etholiad llywodraeth leol mewn unrhyw ardal etholiadol) fel dirprwy i fwy na ddau berson nad ydyn nhw'n wŷr, gwraig, tad-cu, mam-gu, brawd, chwaer, plentyn, wŷr neu wyres iddyn nhw	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
61(5)	Pleidleisio lluosog O fwriad yn ysgogi neu'n caffael rhyw berson arall i gyflawni gweithred sydd, neu heblaw am angen gwybodaeth y person arall a fyddai, yn drosedd gan y person hwnnw o dan yr isadran berthnasol o Adran 61	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
62(1)	Troseddau ynghylch datganiadau Gwneud datganiad o gysylltiad lleol neu ddatganiad	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. pan nad oes awdurdod gan berson i wneud felly gan Adran 7B(1) neu Adran 15(10) ii. heblaw fel y caniateir gan y Ddeddf hon, pan ydyn nhw'n gwybod eu bod yn amodol i anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio, neu iii. pan ydyn nhw'n gwybod ei fod yn cynnwys datganiad sy'n ffug, neu <p>Ardystio datganiad gwasanaeth pan yw person yn gwybod:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. nad oes ganddynt awdurdod i wneud felly, neu ii. ei fod yn cynnwys datganiad ffug ynghylch unrhyw fanylion y gofynnir amdany'n nhw gan reoliadau o dan Adran16 			
62A	<p>Troseddau sy'n perthyn i geisiadau am bleidleisiau drwy'r bost neu drwy ddirprwy Ymgysylltu mewn un o'r gweithredoedd dilynol â'r bwriad, drwy wneud felly, o amddifadu rhywun arall o'r cyfle i bleidleisio neu i ennill pleidlais iddo e ei hunan neu i rywun arall, nad oedd hawl ganddyn nhw i'r bleidlais fel arall, neu i ennill arian neu eiddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. gwneud cais am bleidlais drwy'r bost neu drwy ddirprwy fel rhyw berson arall (boed i'r person arall hwnnw fod yn fyw neu'n farw neu'n ffug) b. gwneud datganiad ffug mewn ffordd arall mewn, neu mewn cysylltiad â, chais am bleidlais drwy'r 	Unrhyw berson (sy'n cyflawni, sy'n cynorthwyo, sy'n annog, sy'n cyngori neu sy'n caffael cyflawni'r drosedd)	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>bost neu drwy ddirprwy</p> <p>c. ysgogi'r Swyddog Cofrestru neu'r Swyddog Canlyniadau i anfon papur pleidleisio neu unrhyw gyfathrebiad sy'n perthyn i bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i gyfeiriad na chytunwyd arno gan y person sydd â'r hawl i bleidleisio</p> <p>achosi i gyfathrebiad sy'n perthyn i bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy neu sy'n cynnwys papur pleidleisio drwy'r post i beidio cael ei drosglwyddo i'r derbynnydd arfaethedig</p>			
63(1)	<p>Toriad ar ddyletswydd swyddogol</p> <p>Bydd unrhyw berson mae'r adran hon yn perthyn iddo, sy'n gweithredu heb achos rhesymol, yn torri ar ei ddyletswydd swyddogol ynghylch unrhyw ddeddf neu hepgoriad</p>	<p>Mae'r adran hon yn perthyn i:</p> <p>Clerc y Goron neu eu dirprwy;</p> <p>Swyddog Cofrestru, Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Llywyddu;</p> <p>unrhyw berson y mae ei ddyletswydd yn cynnwys bod yn gyfrifol ar ôl etholiad llywodraeth leol am bapurau pleidleisio a ddefnyddiwyd a dogfenni eraill (gan gynnwys cofnodion a datganiadau ynghylch treuliau);</p>		Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>neu heb yr awdurdod priodol</p> <p>Noder: nid yw datganiad o hunaniaeth yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr lle mae wedi'i ailosod gan y datganiad pleidleisio post. Mae datganiad o hunaniaeth yn berthnasol i droseddau yng Ngogledd Iwerddon.</p>			
65A(1)	<p>Datganiadau ffug mewn papurau enwebu ac ati</p> <p>Mewn etholiad Seneddol, neu mewn unrhyw etholiad llywodraeth leol yn Lloegr neu Gymru, berson sy'n achosi neu sy'n caniatáu i gynnwys mewn dogfen a drosglwyddir neu a ddarperir mewn ffordd arall i'r Swyddog Canlyniadau i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'r etholiad:</p> <p>a. ddatganiad o enw neu gyfeiriad cartref ymgeisydd yn yr etholiad maen nhw'n gwybod eu bod yn ffug mewn unrhyw ffordd, neu</p> <p>aa. (pan fo'r etholiad yn etholiad seneddol) datganiad o dan reoliad 6(5)(b) Atodlen1 y Ddeddf hon y mae'n gwybod i fod yn anwir yn benodol; neu</p> <p>b. unrhyw beth sy'n proffesu ei fod yn llofnod etholwr sy'n cynnig, sy'n eilio neu sy'n cytuno i'r enwebiad o'r fath ymgeisydd maen nhw'n gwybod:</p> <p>i. nad ysgrifennwyd gan yr etholwr</p> <p>ii. os ysgrifennwyd gan yr etholwr, nad ysgrifennwyd ganddyn nhw ar gyfer arddangos eu bod yn cynnig, yn eilio neu'n cytuno i'r enwebiad; neu</p> <p>c. tystysgrif yn awdurdodi, ar ddibenion 6A y rheolau etholiadol seneddol, ymgeisydd yn</p>	Unrhyw berson	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at chwe mis o garchar</p> <p>Ar dditiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	defynddio disgrifiad os ydync yn gwybod bod ye ymgeisydd yn sefyll mewn etholiad mewn etholaeth arall y mae'r bleidlais i'w chynnal ar yr un diwrnod a'r bleidlais y mae'r tystysgrif yn perthyn iddo.			
65A(1A)	<p>Datganiadau ffug gan ymgeiswyr ar bapurau enwebu</p> <p>Mewn unrhyw etholiad Seneddol, neu mewn unrhyw etholiad llywodraeth leol yn Lloegr neu yng Nghymru, mae ymgeisydd yn gwneud datganiad ffug mewn unrhyw ddogfen ble rhoddir eu caniatâd am enwebiad, ynghylch:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. eu dyddiad geni b. eu cymwysterau (eu bod yn gymwys neu y byddan nhw'n gymwys i gael eu hethol, a hyd y gwyddant neu hyd y credant, dydyn nhw ddim yn anghymwys rhag cael eu hethol) neu c. nad ydyn nhw'n ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer unrhyw etholaeth arall ble cynhelir y bleidlais ar yr un diwrnod â'r bleidlais yn yr etholiad mae'r caniatâd yn perthyn iddo 	Unrhyw ymgeisydd	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfnygedig a/neu hyd at chwe mis o garchar.</p> <p>Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>
66(1)	<p>Angen am gyfrinachedd</p> <p>Mae rhaid i bob Swyddog Canlyniadau a Swyddog Llywyddu neu glerc a phob ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio sy'n mynychu gorsaf pleidleisio gynnal a chynorthwyo cyfrinachedd y pleidleisio ac, oni bai eu bod ag awdurdod y gyfraith, ddylen nhw ddim gyfathrebu i unrhyw berson cyn i'r bleidlais gael ei gau, wybodaeth ynghylch:</p>	Unrhyw berson		Dirwy anghyfnygedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<ul style="list-style-type: none"> i. enw unrhyw etholwr neu ddirprwy sydd wedi neu sydd ddim wedi gwneud cais am bapur pleidleisio neu sydd wedi pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio ii. y rhif ar y gofrestr etholwyr o unrhyw etholwr neu ei ddirprwy sydd wedi neu sydd ddim wedi gwneud cais am bapur pleidleisio neu sydd wedi pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, neu iii. y marc swyddogol 			
66(2)	<p>Angen am gyfrinachedd Mae rhaid i bob person sy'n mynychu gorsaf bleidleisio wrth iddyn nhw gyfrif y pleidleisiau gynnal a chynorthwyo cyfrinachedd y pleidleisio ac mae rhaid iddyn nhw beidio:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. sicrhau neu geisio sicrhau'r rhif ar gefn unrhyw bapur pleidleisio yn y cyfrif b. cyfathrebu unrhyw wybodaeth a gafwyd yn y cyfrif ynghylch yr ymgeisydd y rhoddir unrhyw bleidlais iddo ar bapur pleidleisio neilltuol 	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis
66(3)	<p>Angen am gyfrinachedd Mae rhaid i bob person beidio:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. ymyrryd neu geisio ymyrryd â phleidleisiwr wrth iddo gofnodi ei bleidlais b. cael neu geisio cael mewn ffordd arall mewn gorsaf bleidleisio wybodaeth ynghylch yr ymgeisydd y mae pleidleisiwr yn yr orsaf honno'n bwriadu pleidleisio neu wedi pleidleisio drosto c. cyfathrebu unrhyw wybodaeth ar unrhyw adeg i 	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>unrhyw berson ynghylch yr ymgeisydd y mae pleidleisiwr yn bwriadu pleidleisio neu wedi pleidleisio drosto, neu ynghylch y rhif ar gefn y papur pleidleisio a roddwyd i'r pleidleisiwr hwnnw yn yr orsaf honno</p> <p>d. ysgogi pleidleisiwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i arddangos eu papur pleidleisio ar ôl iddyn nhw ei farcio er mwyn ei wneud yn hysbys i unrhyw berson beth yw enw'r ymgeisydd maen nhw wedi neu ddim wedi pleidleisio drosto</p>			
66(4)	<p>Angen am gyfrinachedd Bydd pob person sy'n mynychu'r gweithgareddau mewn cysylltiad â chyhoeddi neu dderbyn papurau pleidleisio ar gyfer personau sy'n pleidleisio drwy'r post yn cynnal cyfrinachedd y pleidleisio a'i gynorthwyo ac ni fydd yn:</p> <p>a. oni bai ag awdurdod y gyfraith, gyfathrebu, cyn i'r bleidlais gau, i unrhyw berson wybodaeth a gafwyd yn y trafodion hynny ynghylch y marc swyddogol, neu</p> <p>b. oni bai ag awdurdod y gyfraith, gyfathrebu i unrhyw berson ar unrhyw adeg unrhyw wybodaeth a gafwyd yn y trafodion hynny ynghylch y rhif ar gefn y papur pleidleisio a anfonwyd i unrhyw berson</p> <p>c. oni bai ag awdurdod y gyfraith, sicrhau neu geisio sicrhau yn y trafodion mewn cysylltiad â derbyn papurau pleidleisio y rhif ar gefn unrhyw bapur pleidleisio, neu</p>	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	d. ceisio sicrhau yn y trafodion mewn cysylltiad â derbyn y papurau pleidleisio'r ymgeisydd y rhoddir unrhyw bleidlais iddo mewn unrhyw bapur pleidleisio neilltuol neu gyfathrebu unrhyw wybodaeth ynghylch honno a gafwyd yn y trafodion hynny			
66(5)	Angen am gyfrinchedd Mae rhaid i bob person sydd wedi addo cynorthwyo pleidleisiwr sy'n ddall wrth iddo bleidleisio beidio cyfathrebu unrhyw wybodaeth ar unrhyw adeg i unrhyw berson ynghylch yr ymgeisydd y mae'r pleidleisiwr hwnnw yn bwriadu pleidleisio neu wedi pleidleisio drosto, neu ynghylch y rhif ar gefn y papur pleidleisio	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis
66A(1)	Gwaharddiad ar gyhoeddi arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoddd pleidleisio Mewn etholiad Seneddol, neu mewn unrhyw etholiad llywodraeth leol yn Lloegr neu yng Nghymru, fydd neb yn cyhoeddi cyn i'r bleidlais gau: a. unrhyw ddatganiad sy'n perthyn i'r ffordd y mae pleidleiswyr wedi pleidleisio yn yr etholiad ble mae datganiad (neu ble mae'n bosibl fod datganiad) yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bleidleiswyr ar ôl iddyn nhw bleidleisio, neu b. unrhyw ragolwg ynghylch canlyniad yr etholiad sydd (neu y gellid ei ddeall ei fod) yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd felly	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig, neu derm o garcharu heb fod yn fwy na chwe mis
66B	Methu cydymffurfio ag amodau sy'n perthyn i ddarparu ac ati rhyw ddogfenni	Swyddog Cofrestru Etholiadol neu	Trosedd	Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>Methu cydymffurfio ag amodau cadw dogfenni etholiad o dan Reol 57 o Reolau Etholiadau Seneddol (ynghylch cadw'r holl ddogfenni etholiad am un flwyddyn ac yna dinistrio nhw)</p> <p>a. unrhyw berson, oni bai fod ganddyn nhw oruchwylydd priodol ac maent wedi cydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan eu goruchwylydd, neu</p> <p>b. goruchwylydd priodol sydd wedi methu cymryd y camau priodol</p> <p>Mae unrhyw berson arall yn ddieuog o drosedd os ydyn nhw wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r amodau</p>	oruchwylydd		
73(6)	<p>Talu treuliau etholiad</p> <p>Mae gwneud taliadau tuag at dreuliau etholiad ymgeisydd gan unrhyw berson na wneir drwy'r asiant etholiad yn drosedd. Nodir rhai eithriadau yn a74:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Treuliau personol ymgeisydd (yn amodol ar y terfyn a nodwyd yn y Ddeddf) • Treuliau a dalwyd gan yr ymgeisydd cyn penodi asiant etholiad <p>Gall person a awdurdodwyd gan yr asiant etholiad dalu mân dreuliau hyd at derfyn y cytunwyd arno.</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
75(5)(a)	<p>Gwariant treuliau etholiad gan berson heb awdurdod</p> <p>Ni ellir mynd i unrhyw dreuliau gyda'r nod o hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd mewn etholiad gan unrhyw berson heblaw'r ymgeisydd, asiant etholiad a phobl a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr asiant etholiad.</p>	Unrhyw berson (heblaw'r rheini a nodir)	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>Nid yw hyn yn cyfyngu ar gyhoeddiad yn ymwneud â'r etholiad mewn papur newydd, cyfnodolyn neu ddarllediad gwasanaeth cyhoeddus. Mae hefyd yn eithrio costau ar gyfer teithio neu byw i ffwrdd nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r swm a ganiateir ac nad ydynt yn rhan o gynllun gweithredu ar y cyd.</p> <p>Mae'n drosedd i unrhyw berson fynd i gostau, neu helpu, annog, cwnsela neu beri unrhyw berson arall i fynd i gostau yn erbyn y rheol hon.</p>			
75(5)(b)	<p>Datganiad ffug o dreuliau gan berson a awdurdodwyd gan yr asiant Mae'n rhaid i berson (heblaw am berson sydd wedi'i ymrwymo neu ei gyflogi i'w dalu neu addewid o daliad gan yr ymgeisydd neu ei asiant etholiad) a awdurdodwyd i fynd i gostau gan yr asiant gyflwyno ffurflen gwariant yn nodi faint y treuliau i'r swyddfa briodol, ynghyd â datganiad yn cadarnhau'r ffurflen gwariant ac yn rhoi manylion materion y treuliau. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol.</p>	Unrhyw berson a awdurdodwyd gan yr asiant etholiad, nad yw wedi'i ymrwymo na'i gyflogi i'w dalu neu addewid o daliad gan yr ymgeisydd neu'r asiant etholiad	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>
75(5)	<p>Methu â datgan treuliau gan berson ac a awdurdodwyd gan yr asiant Mae'n rhaid i berson (heblaw am berson sydd wedi'i ymrwymo neu ei gyflogi i'w dalu neu addewid o daliad gan yr ymgeisydd neu ei asiant etholiad) a awdurdodwyd i fynd i gostau gan yr asiant gyflwyno ffurflen gwariant yn nodi swm y treuliau i'r swyddog priodol, gan nodi ym mha etholiad ac er mwyn cefnogi pwy yr aethpwyd i'r treuliau. Rhaid gwneud hyn o fewn</p>	Person a awdurdodwyd gan yr asiant etholiad, nad yw wedi'i ymrwymo na'i gyflogi i dalu neu addo talu gan yr ymgeisydd neu'r asiant etholiad	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	21 diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan. Mae'n drosedd methu â chyflwyno cyfarwyddyd fel y sy'n ofynnol.			
76(1B)	Rhagori ar derfyn treuliau'r ymgeisydd Bydd unrhyw ymgeisydd neu asiant etholiad sy'n mynd i gostau, neu sy'n awdurdodi mynd i gostau, ar dreuliau etholiadol dros y swm a ganiateir ac yn gwybod neu a ddylai wybod yn rhesymol y byddai'r treuliau yn uwch na'r swm hwnnw (ac eithrio treuliau personol) yn cyflawni trosedd. Caiff treuliau personol yr ymgeisydd eu heithrio mewn etholiad seneddol, Awdurdod neu lywodraeth leol (yng Nghymru a Lloegr).	Ymgeisydd neu asiant etholiad	Arfer anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
76ZA(5)	Mynd dros y terfyn gwario ar gyfer treuliau cyn-ymgeisiol Bydd unrhyw ymgeisydd neu asiant etholiad sy'n mynd i gostau, neu sy'n awdurdodi mynd i gostau, ar dreuliau etholiadol dros y swm a ganiateir ac yn gwybod neu a ddylai wybod yn rhesymol y byddai'r treuliau yn uwch na'r swm hwnnw (ac eithrio treuliau personol) yn cyflawni trosedd. Mae'r drosedd hon ond yn gymwys mewn amgylchiadau penodol – a) ni ddiddymir Senedd tan ar ôl y cyfnod o 55 mis yn dechrau gyda'r diwrnod pan wnaeth y Senedd gwrdd am y tro cyntaf ("y cyfnod 55 mis"), b) eir i gostau etholiad gan neu ar ran ymgeisydd yn yr etholiad cyffredinol seneddol sy'n dilyn y	Ymgeisydd neu asiant etholiad	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>diddymiad</p> <p>c) mae'r treuliau yr eir iddynt mewn perthynas â mater a ddefnyddir yn ystod y cyfnod yn dechrau'n syth ar ôl y cyfnod 55 mis ac yn gorffen ar y diwrnod pan ddaw'r person yn ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw.</p>			
78(3)	<p>Talu hawliadau a dderbynnir yn hwyr neu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer talu</p> <p>Rhaid anfon pob cais am daliad yn erbyn ymgeisydd neu ei asiant etholiad mewn perthynas â threuliau etholiad heb fod yn hwyrach na 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan.</p> <p>Rhaid talu treuliau etholiad heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan.</p> <p>Ni all asiant etholiad dalu cais a dderbynnir ar ôl y cyfnod o 21 diwrnod, na gwneud taliad yn hwyrach na'r cyfnod 28 diwrnod (ac eithrio lle caiff y cyfnod hawlio ei ymestyn gan ganiatâd y llys)</p>	Asiant etholiad (gan gynnwys ymgeisydd pan fydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun)	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
82(6) gwneud datganiad ffug gyda'r ffurflen treuliau	<p>Gwneud datganiad ffug gyda'r ffurflen treuliau</p> <p>Rhaid i ymgeisydd gyflwyno ffurflen yn cynnwys datganiad o'r holl dreuliau etholiad a'r holl daliadau a wnaed gan yr asiant etholiad, wedi'i chefnogi gan filiau ac anfonebau, yn ogystal â rhoddion a dderbyniwyd i'r Swyddog Canlyniadau o fewn 35 diwrnod ar ôl datgan canlyniad yr etholiad (70 diwrnod ar gyfer etholiad maerol a 70 diwrnod ar ôl y datganiad olaf ar gyfer etholiadau Cynulliad Llundain).</p> <p>Mae'n rhaid i'r ffurflen gynnwys datganiad gan yr asiant etholiad bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir. O</p>	Ymgeisydd neu asiant etholiad	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>fewn 7 diwrnod mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud datganiad tebyg (neu 14 diwrnod os yw y tu allan i'r DU). Rhagnodir y ffurflen ar gyfer y datganiad gan y Ddeddf.</p> <p>Mae'n drosedd naill ai'r i'r ymgeisydd neu'r asiant wneud datganiad ffug.</p>			
84	<p>Methu â chyflwyno ffurflen Methu â chyflwyno ffurflen neu ddatganiad ymgeisydd sy'n cydymffurfio â'r gofynion.</p> <p>Pan fydd ymgeisydd neu asiant etholiad wedi gwneud cais i'r llys am ryddhad pan fydd y methiant yn deillio o salwch, marwolaeth, absenoleb, camymddwyn gan berson arall (asiant etholiad, asiant etholiad blaenorol, is-asiant, clerch neu swyddfa), neu os bydd esgus rhesymol, gall y llys wneud gorchymyn yn caniatáu esgus awdurdodedig.</p>	Ymgeisydd neu asiant	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
94(1)	<p>Cardiau pleidleisio ffug Fydd neb, at ddibenion hyrwyddo neu gaffael ethol ymgeisydd mewn etholiad Seneddol, yn cyhoeddi unrhyw gerdyn pleidleisio neu ddogfen sy'n ymddangos gymaint fel cerdyn pleidleisio swyddogol y gellir ei ystyried fel ymgais i dwyllo</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
97(1)	<p>Helbulon mewn cyfarfodydd etholiad Gweithredu neu annog eraill i weithredu mewn modd sy'n anhrefnus at ddibenion atal trafod busnes y galwyd cyfarfod yn ei gylch</p>	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Os yw cwnstabl yn ystyried yn rhesymol bod unrhyw berson wedi cyflawni trosedd, gallant, os gofynnir iddynt gan gadeirydd y cyfarfod, ofyn bod y person yn adrodd eu henw a'u cyfeiriad

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
				iddynt ar unwaith, ac os nad yw'r person hwnnw yn rhoi eu henw a'u cyfeiriad neu os ydych yn rhoi enw a chyfeiriad ffug byddant yn destun euogfarn ddiannod i ddirwy sydd heb fod yn fwy na lefel 1 ar y raddfa safonol (ar hyn o bryd £200)
99(1)	Ddylai swyddogion ddim gweithredu dros ymgeiswyr Gweithredu fel asiant ymgeisydd wrth drefnu neu wrth reoli etholiad	Swyddogion Canlyniadau mewn etholiad Seneddol neu etholiad llywodraeth leol, swyddog neu glerc a benodwyd o dan Reolau Seneddol, neu'r Rheol o dan Adran 36	Trosedd	Dirwy sydd heb fod yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol (ar hyn o bryd £2,500)
100(1)	Canfasio anghyfreithlon gan swyddogion yr heddlu Fydd ddim aelod o'r heddlu drwy air, drwy neges ysgrifenedig na thrwy unrhyw fodd arall geisio perswadio unrhyw berson i roi na cheisio perswadio unrhyw berson i beidio rhoi eu pleidlais drwy ddirprwy na fel etholwr mewn unrhyw etholiad Seneddol ar gyfer etholaeth neu mewn etholiad llywodraeth leol am unrhyw ardal etholiadol sydd yn gwbl neu sydd yn rhannol o fewn yr ardal heddlu	Aelodau'r heddlu		Dirwy sydd heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000)
106(1)	Datganiad ffug o ffaith i ymgeisydd	Unrhyw berson	Arferion	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	Gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffug o ffaith mewn cysylltiad â chymeriad neu ymddygiad personol yr ymgeisydd, oni bai fod sail resymol i gredu bod y datganiad yn wir		anghyfreithlon	
107	Tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl yn llwgr Ysgogi neu gaffael drwy dwyll unrhyw berson arall i dynnu'n ôl rhag bod yn ymgeisydd mewn etholiad, oherwydd tâl neu addewid o dâl, ac unrhyw berson sy'n canlyn yr ysgogi neu'r caffael	Unrhyw berson	Tâl anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
109	Taliadau am arddangos hysbysiadau etholiad Ni wneir tâl na chytundeb ynghylch tâl at ddibenion hyrwyddo neu at gaffael ethol ymgeisydd mewn etholiad i etholwr neu i'w ddirprwy ar gyfrif defnyddio unrhyw dŷ, dir, adeilad neu safle ar gyfer arddangos unrhyw gyfeiriad, fil neu hysbysiad oni bai: a. ei fod yn fusnes cyffredin yr etholwr, a b. gwneir y tâl yng nghwrs arferol y busnes hwnnw	Unrhyw berson	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
110	Manylion i ymddangos ar gyhoeddiadau etholiadol ('yr argraffnod') Bydd methu â rhoi enw a chyfeiriad yr argraffwr, hyrwyddwr y deunydd ac unrhyw berson arall y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar ei ran sy'n gallu cael ei ystyried yn rhesymol fel wedi'i fwriadu i hyrwyddo etholiad ymgeisydd mewn etholiad. DS lle bo'r deunydd yn cyfeirio at un neu fwy o bleidiau, neu nifer o ymgeiswyr ar sail barnau neu bolisiau penodol, gweler y drosedd argraffnod amgen o dan 143 PPERA isod.	Hyrwyddwr y deunydd, unrhyw berson arall y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar ei ran ac argraffwyr y ddofen	Arferion anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
111	<p>Gwahardd canfaswyr a delir Os yw person, un ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn cysylltu â neu'n cael eu cyflogi am dâl neu addewid o dâl fel canfasiwr at ddiben hydrwyddo neu sicrhau etholiad ymgeisydd-</p> <p>(a) bydd y person sy'n ei gysylltu neu'n ei gyflogi, a</p> <p>(b) y person sydd wedi'u cysylltu neu eu cyflogi, yn euog o gyflogaeth anghyfreithlon</p>	Y canfasiwr sydd wedi'i gyflogi/gysylltu a'r person sy'n cyflogi neu'n cysylltu'r canfaswir	Cyflogaeth anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
112	<p>Darparu arian ar gyfer pwrpasau sy'n anghyfreithlon Darparu arian yn hysbys:</p> <p>a. ar gyfer unrhyw daliad sy'n gyferbyniol i ddarpariaethau'r Ddeddf neu</p> <p>b. ar gyfer unrhyw dreuliau dros ben y swm mwyaf a ganiateir gan Ddeddf hon neu</p> <p>c. yn lle unrhyw arian a wariwyd ar gyfer taliadau neu dreuliau</p> <p>Heblaw bod y taliad neu'r treuliau wedi'u caniatáu yn wreiddiol o ran adran 167 fel eithriad</p>	Unrhyw berson	Tâl anghyfreithlon	Dirwy anghyfyngedig
113(2)	<p>Llwgrowbrwyo Yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ganddyn nhw eu hunain neu gan unrhyw berson arall ar eu rhan:</p> <p>a. yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu dros unrhyw bleidleisiwr neu i neu dros unrhyw berson arall ar ran unrhyw bleidleisiwr neu i neu dros unrhyw berson arall er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio pleidleisio, neu</p> <p>b. drwy dwyll sy'n gwneud unrhyw weithred o'r fath</p>	Unrhyw berson	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar dditiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>y sonnir amdani uchod ar gyfrif unrhyw bleidleisiwr sydd wedi pleidleisio neu sydd wedi peidio pleidleisio, neu</p> <p>c. sy'n gwneud unrhyw rodd neu gaffaeliad o'r fath fel y sonnir amdany'n nhw uchod i neu dros unrhyw berson er mwyn ysgogi'r person hwnnw i gaffael, neu i geisio caffael, ethol unrhyw berson mewn etholiad neu i gaffael, neu i geisio caffael, bleidlais unrhyw bleidleisiwr,</p> <p>neu os, wrth neu wedi derbyn y fath rodd neu'r fath gaffaeliad, maen nhw'n caffael neu hurio, addo neu geisio caffael ethol unrhyw berson mewn etholiad neu bleidlais unrhyw bleidleisiwr</p>			
113(3)	<p>Llgrwobrwyo</p> <p>Os ydyn nhw'n blaendalu neu'n talu neu'n achosi i dalu unrhyw arian i neu dros ddefnyddio unrhyw berson arall â'r bwriad y bydd yr arian hynny neu unrhyw ran ohonyn nhw'n cael ei gwario i llgrwobrwyo mewn unrhyw etholiad, neu os ydyn nhw o fwriad yn talu neu'n achosi i dalu unrhyw arian i unrhyw berson wrth gyflawni neu wrth ad-dalu unrhyw arian a wariwyd yn llwyr neu'n rhannol wrth llgrwobrwyo mewn unrhyw etholiad</p>	Unrhyw berson	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar dditiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>
113(5)	<p>Llgrwobrwyo</p> <p>Os ydyn nhw cyn neu yn ystod etholiad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ganddyn nhw eu hunain neu gan unrhyw berson arall neu ar eu rhan derbyn, cytuno neu gontractio am unrhyw arian, rodd neu fenthyciad sydd o werth sylweddol, swydd, lle neu gyflogaeth iddyn nhw eu hunain neu i unrhyw berson</p>	Unrhyw bleidleisiwr	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar dditiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	arall am bleidleisio neu am gytuno i bleidleisio neu am beidio neu gytuno i beidio pleidleisio			
113(6)	Llwgwrwbrwyo Os ydyn nhw, ar ôl etholiad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan berson arall ar eu rhan yn derbyn arian neu ystyriaeth werthfawr ar ran unrhyw berson sydd wedi pleidleisio neu beidio pleidleisio neu wedi achosi i unrhyw berson arall bleidleisio neu beidio pleidleisio	Unrhyw berson	Arferion llwgr	Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar
113(7)	Llwgwrwbrwyo Os nad yw person yn gymwys i bleidleisio dydy hyn ddim yn golygu, o angenrheidrwydd, nad yw'r weithred yn llwgwrwbrwyo	Unrhyw berson	Arferion llwgr	Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar
202(1)	Llwgwrwbrwyo Mae'r RPA yn disgrifio 'pleidleisiwr' fel person sy'n pleidleisio mewn etholiad gan gynnwys person sy'n pleidleisio drwy ddirprwy. Mae hyn yn golygu bod y diffiniad o llwgwrwbrwyo'n ymestyn at bleidleisio drwy ddirprwy			
Cyfraith achos <i>R v Vaughan</i> (1769) 4 Burr 2494	Llwgwrwbrwyo Trosedd y gyfraith gyffredin	Unrhyw berson	Arferion llwgr	
114(2)	Tretio Os ydyn nhw drwy dwyll, ganddyn nhw eu hunain neu gan unrhyw berson arall, naill ai cyn, yn ystod neu ar	Unrhyw berson	Arferion llwgr	Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar

Adran RPA 1983	Crynodeb o drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Math o drosedd	Cosb
	<p>ôl etholiad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi neu'n darparu, neu'n talu'n llwyr neu'n rhannol yr arian i roi neu i ddarparu, unrhyw gig, diod, adloniant neu ddarpariaeth i neu ar gyfer unrhyw berson:</p> <p>a. at ddibenion dylanwadu ar y person hwnnw neu unrhyw berson arall drwy dwyll i bleidleisio neu i beidio pleidleisio, neu</p> <p>b. gan fod y person hwnnw neu unrhyw berson arall wedi pleidleisio neu beidio pleidleisio, neu fwriadu pleidleisio neu beidio pleidleisio</p>			Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar
114(3)	<p>Tretio Pob etholwr sy'n derbyn neu sy'n cymryd drwy dwyll unrhyw gig, ddiod neu adloniant neu ddarpariaeth</p>	Unrhyw etholwr neu eu dirprwy	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>
115	<p>Dylanwad gormodol Ble maen person, wrth ei hun neu drwy unrhyw berson arall ar ei ran, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu ble maen nhw'n achosi neu'n bygwth achosi unrhyw anaf amserol neu ysbrydol, niwed neu gam er mwyn ysgogi neu orfodi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio pleidleisio. Yn rhwystro neu'n atal hawl y pleidleisiwr i bleidleisio'n rhydd. Ymyrryd â phleidleisiwr wrth iddyn nhw gofnodi eu pleidlais</p>	Unrhyw berson	Arferion llwgr	<p>Ar gollfarn ddiannod: dirwy anghyfyngedig a/neu chwe mis o garchar</p> <p>Ar ddiad: dirwy a/neu hyd at flwyddyn o garchar</p>

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 2000

Adran RPA 2000	Crynodeb o'r drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Categori o drosedd	Cosb
Atodlen 4(8)	<p>Pleidleisio absennol - troseddau</p> <p>a. gwneud mynegiad ffug o fewn unrhyw ddatganiad neu ffurflen berthnasol, neu</p> <p>b. ardystio i gais (o dan baragraff 3 neu 4, Atodlen 4) pan ydyn nhw'n gwybod nad oes awdurdod ganddyn nhw i wneud felly neu'n gwybod ei fod yn cynnwys datganiad sy'n ffug</p>	Unrhyw berson		Dirwy anghyfyngedig

Deddf Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda (PPERA) 2000

Adran PPERA 2000	Crynodeb o'r drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Categori o drosedd	Cosb
143	<p>Manylion i ymddangos ar ddeunydd etholiadol</p> <p>Methu â rhoi enw a chyfeiriad yr argraffwr, hyrwyddwr y deunydd, ac unrhyw berson arall y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar eu rhan ar ddeunydd y gellir ei ystyried yn rhesymol fel wedi'i fwriadu i hyrwyddo neu gaffael llwyddiant etholiadol mewn unrhyw etholiad perthnasol ar gyfer:</p> <p>a. un neu fwy o bleidiau cofrestredig penodol,</p> <p>b. un neu fwy o bleidiau cofrestredig sy'n hyrwyddo (neu ddim yn hyrwyddo) polisïau penodol neu sydd fel arall yn cael eu hystyried o fewn carfan benodol o bleidiau o'r fath, neu</p> <p>c. ymgeiswyr sydd â (neu heb) farn benodol neu sy'n hyrwyddo (neu sydd ddim yn hyrwyddo)</p>	Hyrwyddwr y deunydd, unrhyw berson arall sy'n cyhoeddi'r deunydd, ac argraffwyr y ddogfen		Dirwy anghyfyngedig

Adran PPERA 2000	Crynodeb o'r drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Categori o drosedd	Cosb
	polisiau penodol neu sydd fel arall yn cael eu hystyried o fewn carfan benodol o ymgeiswyr DS lle mae'r deunydd yn hyrwyddo un ymgeisydd yn unig, gweler yr adran 110 RPA 1983 trosedd argraffnod			

Deunydd cyf 2

Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Gall yr adrannau a restrir isod gynorthwyo wrth ddelio â sefyllfaoedd trefn gyhoeddus posibl sy'n gysylltiedig ag etholiadau.

Gorymdeithiau a chynulliadau

- Adran 11 – Hysbysiad ymlaen llaw o orymdeithiau cyhoeddus
- Adran 12 – Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus
- Adran 13 – Gwahardd gorymdeithiau cyhoeddus
- Adran 14 – Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus
- Adran 14A – Gwahardd cynulliadau tresmasol

Casineb hiliol

- Adran 17 – Ystyr casineb hiliol
- Adran 18 – Defnyddio geiriau neu ymddygiad neu arddangos deunydd ysgrifenedig
- Adran 19 – Cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig

Deunydd hiliol ymfflamychol

- Adran 23 – Meddiant o ddeunydd hiliol ymfflamychol
- Adran 24 – Pwerau mynediad a chwilio
- Adran 25 – Pŵer i orchymyn fforffedu

Casineb yn erbyn pobl ar sail grefyddol neu sail gyfeiriadedd rhywiol

- Adran 29A – Ystyr casineb crefyddol
- Adran 29AB – Ystyr casineb ar sail gyfeiriadedd rhywiol

- Adran 29B – Defnyddio geiriau neu ymddygiad neu arddangos deunydd ysgrifenedig
- Adran 29C – Cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig

Deunydd ymfflamychol

- Adran 29G – Meddiant o ddeunydd ymfflamychol
- Adran 29H – Pwerau mynediad a chwilio
- Adran 29I – Pŵer i orchymyn fforffedu
- Adran 29J – Gwarchod rhyddid mynegiant
- Adran 29JA – Gwarchod rhyddid mynegiant (cyfeiriadedd rhywiol)

Deddf Trefn Gyhoeddus 1936

- Adran 1 – Gwahardd lifrai mewn cysylltiad â gwrthrychau gwleidyddol

Deunydd cyf 3

Model memorandwm o ddealltwriaeth

Memorandwm o ddealltwriaeth

Cytundeb ar gynllunio ar y cyd ar gyfer etholiadau ac adrodd ac ymchwilio i gamymddwyn etholiadol

rhwng

Swyddog cofrestru etholiadol a swyddog canlyniadau (gweithredol) ardal awdurdod lleol **

a'r

Prif gwnstabl/comander rhanbarthol heddlu **

Noder: Efallai y bydd rolau'r swyddog cofrestru etholiadol a'r swyddog canlyniadau yn cael eu llenwi gan yr un person ac fel arfer prif weithredwr y cyngor neu brif swyddog arall fyddai hwnnw. Er eu bod wedi'u penodi gan y cyngor i gyflawni'r swyddogaethau hyn, maent yn annibynnol ar y cyngor. Gallant benodi uwch swyddog gwasanaethau etholiadol fel dirprwy i helpu cyflawni eu dyletswyddau etholiadol. Ar gyfer etholiadau senedd y DU, mae'r swyddog canlyniadau (gweithredol) yn cyflawni'r un rôl ag y mae'r swyddog canlyniadau yn ei wneud gydag etholiadau lleol. Ar gyfer etholiadau Ewropeaidd, efallai y bydd angen memorandwm o ddealltwriaeth ar wahân gyda'r swyddog canlyniadau rhanbarthol.

Cynnwys

1	Trosolwg
2	Egwyddorion sylfaenol
3	Amcanion
4	Rolau a chyfrifoldebau
5	Gweithdrefnau pennu tasgau a chydlynu
6	Rhannu gwybodaeth
7	Lledaenu gwybodaeth
8	Rhai enghreifftiau penodol
9	Ymrwymiad
10	Cychwyn a hyd amser
11	Anghydfod

1 Trosolwg

1.1 Pwrpas y memorandwm o ddealltwriaeth (MoU) hwn yw sicrhau a chynnal hyder parhaus yn hygredd y broses etholiadol drwy hyrwyddo gweithio ar y cyd er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gamymddwyn yn y broses etholiadol.

1.2 Mae'n nodi dealltwriaeth gytunedig o sut mae gwasanaeth heddlu ** a swyddog cofrestru etholiadol/swyddog canlyniadau (gweithredol) ** yn cydweithredu i sicrhau bod etholiadau a refferenda yn cael eu cynnal mewn modd teg a chynhwysol, ac yn unol â'r gyfraith.

1.3 Mae'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn ceisio galluogi'r ddau bartner uchod i gydweithredu â'i gilydd er mwyn hyrwyddo rhannu data, gweithrediadau ac ymchwiliadau ar y cyd.

1.4 Bydd gan y ddau bartner alwadau cystadleuol am eu hadnoddau a bydd angen i unrhyw benderfyniadau gweithredol a gymerir gan y partner perthnasol ystyried yn llawn yr argaeledd adnoddau, yn amodol ar flaenoriaethau cyfredol.

1.5 Mae'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn wedi'i gynhyrchu er mwyn egluro'r gwahanol arferion a gweithdrefnau gwaith a allai arwain ar adegau at gamddealltwriaeth ynglŷn ag anghenion a rhwymedigaethau bob partner, ac i roi manylion am y cymorth a'r wybodaeth y gall partner eu darparu'n ymarferol.

Egwyddorion sylfaenol

1.6 Bwriad y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yw gwella'r berthynas waith effeithiol rhwng heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a swyddogion cofrestru etholiadol/swyddogion canlyniadau (gweithredol) lleol.

1.7 Cred Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) bod hwyluso pleidleisio heddychlun ac effeithiol yn fater o gonsyrn i wasanaeth yr heddlu ac y gall camymddwyn etholiadol gael ei atal neu ei leihau trwy i'r heddlu weithredu'n gadarnhaol.

1.8 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymrwymo i roi pleidleisiwr yn gyntaf a sicrhau bod etholiadau a refferenda yn cael eu cynnal mewn modd teg a chynhwysol, ac yn unol â'r gyfraith.

1.9 Yn unol â'r APP ar heddlua etholiadau, yr ystyriaeth bwysicaf o unrhyw wybodaeth neu weithredu ymchwiliol neu rannu data ar y cyd yw atal troseddau a chamymddygiad sy'n gysylltiedig ag etholiadau, lle bynnag y bo'n bosibl.

1.10 Mae gan bob llofnodwr rôl a chyfrifoldeb allweddol mewn gweinyddiaeth etholiadol.

1.11 Mae'r partiön i'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn cydnabod nad yw'r egwyddorion cytunedig yn rhwymol yn gyfreithiol, ac ni fwriedir iddynt greu unrhyw hawliau neu rwymedigaethau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, er y bydd pob parti yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol eu hunain mewn amgylchiadau o'r fath.

1.12 Mae'r partïon i'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn cytuno ar yr egwyddorion a amlinellir ynddo, sy'n adlewyrchu'r isafswm disgwyliadau cenedlaethol i'r holl lofnodwyr. Er mwyn i egwyddorion y memorandwm gael eu cyflwyno a'u gweithredu'n effeithiol, bydd trefniadau lleol yn angenrheidiol a dylid eu sefydlu rhwng partneriaid lleol.

Nod

1.13 Nod cyffredinol y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yw dangos ymrwymiad clir a chadarnhaol i weithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo a chefnogi arfer da a lleihau'r cyfle i gamymddwyn etholiadol ddigwydd trwy:

- rannu a datblygu gwybodaeth a ffynonellau gwybodaeth yn effeithiol er mwyn cefnogi'r nod gweithredu ar y cyd strategol
- sicrhau bod unrhyw rannu data neu weithgaredd ymchwiliadol yn cael ei gynnal yn unol â chylch gwaith deddfwriaethol y ddau sefydliad
- ymgymryd â gweithio ar y cyd cymesur a chyfreithlon er mwyn sicrhau pan adroddir ynghylch digwyddiadau neu wybodaeth arall sy'n awgrymu y gallai troseddau mewn cysylltiad â chamymddwyn etholiadol fod wedi digwydd, neu eu bod yn debygol o ddigwydd, y bydd ymchwiliad ystyriol, cytbwys a chymesur yn cael ei gynnal
- cynnal ymchwiliadau prydlon i'r pwrpas o darfu ac atal yn hytrach nag erlyn, ac mae pwysigrwydd hyn yn cael ei nodi yn y canllawiau ar y cyd gan APP ar heddlua etholiadaul.
- [Nodwch unrhyw fanylion neu amrywiad lleol ychwanegol yma]

2 Rolau a chyfrifoldebau

Rôl yr Heddlu

2.1 Mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau, a lle bo'n briodol, cyfeirio'r ymchwiliadau hynny at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) am gyngor a/neu benderfyniad cyhuddo.

2.2 Dylai'r heddlu ymgymryd ag ymchwiliadau cynnar effeithiol er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth allweddol sydd eu hangen i wneud penderfyniadau yn cael ei sicrhau cyn gynted â phosibl.

2.3 Mae pob heddlu yn cael eu hannog i benodi pwynt cyswllt sengl heddlu yr etholiad (SPOC) i gysylltu fel sy'n briodol gyda'r swyddog cofrestru etholiadol/swyddog canlyniadau (gweithredol) a'r Comisiwn Etholiadol.

2.4 Pan fo'r heddlu yn asesu p'un a allai trosedd fod wedi'i chyflawni o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCyB 1983) neu ddeddfwriaeth etholiadol berthnasol

arall, byddant yn cynnal ymchwiliad cymesur i gynorthwyo'r CPS wrth ystyried a ddylid dwyn cyhuddiad(au) troseddol yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad.

3 Rôl y swyddog cofrestru etholiadol

3.1 Mae'r swyddog cofrestru etholiadol yn gyfrifol am lunio a chynnal y gofrestr etholwyr, sy'n cynnwys cofnod ar gyfer pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio a'u cymhwyster i bleidleisio.

3.2 Hefyd mae cyfrifoldebau'r swyddog cofrestru etholiadol yn cynnwys cofrestru ceisiadau i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, a cheisiadau gan bobl sydd am gofrestru i bleidleisio'n ddienw.

4 Rôl y swyddog canlyniadau

4.1 Y swyddog canlyniadau sy'n gyfrifol am reoli etholiadau lleol. Yn achos refferenda cyngor lleol, refferenda y dreth gyngor neu refferenda maerol, y swyddog canlyniadau yw'r swyddog cyfrif. Mewn etholiadau senedd y DU, erys y mae'r cyfrifoldeb hwn gyda'r swyddog canlyniadau gweithredol. Y swyddog canlyniadau rhanbarthol neu'r swyddog canlyniadau lleol sy'n gyfrifol am etholiadau'n ymwneud â Senedd Ewrop.

4.2 Pan gyfunir etholiadau, dylai'r Memorandwm o ddealltwriaeth gydnabod bod cyfrifoldebau'r Swyddogion Canlyniadau yn amrywio yn ôl p'un a yw'r etholiad yn un lleol ynteu rhanbarthol.

4.3 Cyfrifoldeb y swyddog canlyniadau (gweithredol) yw rheoli etholiad, ac maent yn atebol yn bersonol a chyfreithiol am gynnal y ddyletswydd hon yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae dyletswyddau'r swyddog canlyniadau (gweithredol) yn cynnwys:

- derbyn enwebiadau
- cyhoeddi'r rhestr o ymgeiswyr a enwebwyd
- cynghori ar rolau a chyfrifoldebau ymgeiswyr, asiantiaid a'u cefnogwyr ynglŷn â'r etholiad a'r lleoliad cymunedol
- sefydlu a staffio gorsafoedd pleidleisio a sicrhau dychweliad diogel y blychau pleidleisio
- rheoli pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy
- dilysu a chyfrif y papurau pleidleisio, a datgan y canlyniad.

5 Gweithdrefnau pennu tasgau a chydlynu

5.1 Mae swyddogion cofrestru etholiadol/swyddogion canlyniadau (gweithredol) yn cymryd honiadau o gamymddwyn etholiadol o ddifrif. Pan fo amheuan yn codi, ac ar ôl gwirio gwybodaeth a gedwir gan yr awdurdod lleol, yr ystyrir y dylid eu cyfeirio at yr heddlu i'w hymchwilio, dylai'r swyddog cofrestru etholiadol/swyddog canlyniadau (gweithredol) adrodd ar y mater wrth y swyddog heddlu sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt sengl (SPOC) er mwyn cynorthwyo lle bo hynny'n bosibl. Bydd y swyddog canlyniadau (gweithredol), neu eu cynrychiolydd penodedig, yn cynghori'r heddlu ar weithdrefnau y dylid eu cynnal i gael tystiolaeth tyst gan staff yr awdurdod lleol a benodwyd a/neu dystiolaeth angenrheidiol arall.

5.2 Mater mewnol ar gyfer pob parti fydd dyrannu adnoddau ond bydd y ddau bartner sy'n llunio'r cytundeb hwn yn ceisio cefnogi ceisiadau am gymorth sy'n unol â chyflawni nodau ac amcanion y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn, lle bo hynny'n bosibl.

6 Rhannu gwybodaeth

6.1 Mae'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn cefnogi cyfnewid amserol ac effeithlon o wybodaeth rhwng llofnodwyr ond gall mathau eraill o gydweithredu hefyd gael eu rheoli gan yr egwyddorion hyn.

6.2 Mae rhannu gwybodaeth yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth o un partner i'r llall. Gall hon fod yn wybodaeth a drosglwyddir trwy ddulliau electronig, mewn cofnodion papur, neu ar lafar rhwng partneriaid.

6.3

Mae rhannu gwybodaeth yn gonglfaen cyflenwi dealltwriaeth a rennir o'r materion a chyrraedd atebion ar y cyd. Mae'r wybodaeth gywir yn galluogi partneriaid i gynnal ymyriadau ... sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'u targedu a gwerthuso eu heffaith. Dim ond pan fydd partneriaid yn cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf, berthnasol, a chadarn o ystod eang o ffynonellau ... y gellir cael gwell canlyniad i'r dull o ddatrys problemau a gaiff ei arwain gan wybodaeth.

Cyflawni Cymunedau Diogelach: canllawiau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Y Swyddfa Gartref, 2007

6.4 Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod bod arfer a arweinir gan wybodaeth ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth wraidd partneriaethau lleol, ac mai dyma'r

ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â throseddau ac aildroseddau ar lefel leol yng Nghymru a Lloegr.

Cyflawni Cymunedau Diogelach: canllawiau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Y Swyddfa Gartref, 2007

6.5 Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth effeithlon ac effeithiol rhwng partneriaid perthnasol.

6.6 Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth wedi ei phersonoli a gwybodaeth wedi ei dadpersonoli, yn ogystal â gwybodaeth nad yw'n bersonol.

6.7 Dylai'r heddlu a swyddogion cofrestru etholiadol/swyddogion canlyniadau (gweithredol) sicrhau bod y cytundebau lleol cytunedig presennol ynglŷn â rhannu gwybodaeth yn lleol yn ddigon clir fel y gall ymarferwyr fod yn hyderus pa wybodaeth y gellir ei rhannu a pha wybodaeth na ellir ei rhannu.

6.8 Mae'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn amcanu at sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o rannu gwybodaeth rhwng y partneriaid.

6.9 Bydd Swyddogion a enwebir fel SPOCs heddlu yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer holl gysylltiadau'r awdurdod lleol â'r heddlu, a bydd hefyd bwynt cyswllt awdurdod lleol a enwir ar gyfer bob cyswllt gan yr heddlu, er mwyn diogelu cywirdeb a ffynhonnell pob newyddion a gwybodaeth.

6.10 Bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei lledaenu yn unol â'r APP ar Reoli Gwybodaeth a System Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth (GPMS)/ Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth (GSC).

7 Lledaenu gwybodaeth

7.1 Bydd pob parti yn lledaenu gwybodaeth sy'n briodol i'w gilydd trwy eu pwyntiau cyswllt sengl dynodedig i'r diben hwn.

7.2 Bydd pob parti yn rhannu'r holl newyddion a gwybodaeth berthnasol o dan delerau eu cytundeb rhannu data lleol.

7.3 Ni lledaenir unrhyw wybodaeth a gafwyd gan y partiön ar y cyd y tu allan i'r timau ymchwilio heb gytundeb y parti arall. Dylai hyn osgoi datgelu amhriodol o newyddion a allai beryglu amcanion gweithredol.

7.4 Mae cyfnewid gwybodaeth berthnasol rhwng adrannau etholiadol awdurdodau lleol a heddluoedd yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau etholiadau er mwyn hwyluso pleidleisio democrataidd a hyrwyddo diogelwch a hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol. Gall casglu gwybodaeth yn rhagweithiol yn gynnar yn y broses gynorthwyo i atal troseddau, diogelu'r rheiny sy'n agored i dwyll etholiadol a thargedu troseddwr yn effeithiol.

8 Rhai enghreifftiau penodol

8.1 Byddai heddluoedd yn disgwyl cael eu hysbysu am yr amgylchiadau canlynol yn ystod cyfnodau etholiadau (er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- tueddiadau anarferol neu amheus mewn cofrestriadau pleidleiswyr
- cyhoeddiadau neu ddatganiadau anwir a amheuir gan ymgeiswyr
- gweithrediadau neu ddatganiadau anghyffredin neu amheus (gan gynnwys amgylchiadau sy'n ymwneud â chamdriniaeth o gyfrifoldebau neu rwymedigaethau a amheuir) gan ymgeiswyr, asiantiaid neu gefnogwyr neu weithwyr plaid
- lladrad neu dwyll a amheuir sy'n ymwneud, er enghraifft, â dogfennau sy'n gysylltiedig ag etholiad, papurau cofrestru, deunydd canfasio, a throseddau eraill o anonestrwydd, twyll ac ardystio ffug a all fod yn gysylltiedig â materion etholiadol
- gweithgareddau amheus mewn gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif etholiad.

8.2 Dylai digwyddiadau o ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus (gan gynnwys tuag at unrhyw weithiwr awdurdod lleol neu asiant sy'n ymwneud â gweinyddu etholiad) gan ymgeiswyr, asiantiaid neu gefnogwyr neu weithwyr plaid hefyd gael eu hadrodd i'r heddlu.

8.3 Dylai gwybodaeth sydd i'w rhannu hefyd gynnwys:

- gwybodaeth neu newyddion sy'n deillio o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan yr heddlu
- gwybodaeth neu newyddion a ddefnyddir mewn asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer y ddau barti (e.e. hanes o duedd i ddefnyddio trais)
- gwybodaeth neu newyddion am gwynion blaenorol, ymchwiliadau neu bryderon a wneir gan adran etholiadol yr awdurdod lleol
- datganiadau personol, affidafidau sy'n ofynnol gan yr heddlu neu'r CPS i'w defnyddio mewn achosion troseddol neu sifil
- gwybodaeth i gefnogi olrhain pobl ddrwgdybiedig yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau sy'n gysylltiedig ag etholiad
- deunydd sensitif (dylid rhoi ystyriaeth i drin dogfennau neu ffynonellau gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol yn unol â'r ffordd y mae'r gwasanaeth heddlu yn casglu, rheoli, defnyddio a rhannu gwybodaeth)

- gwybodaeth, dogfennau a deunydd yn ymwneud â thystiolaeth o gymeriad drwg pobl ddrwgdybiedig sy'n cael eu hymchwilio gan yr heddlu
- cyngor ar gyfraith, ymarfer a pholisi, mewn perthynas ag achos penodol neu strategaeth arbennig i gael ei ddefnyddio mewn perthynas ag ymchwiliadau neu erlyniadau.

8.4 Dylid ystyried y camau gweithredu mwyaf effeithiol, hwylus ac effeithlon y gellir eu cymryd gan y naill barti, neu'r ddau, i sicrhau gorfodi darpariaethau'r gyfraith a chynnal hyder mewn gweithdrefnau etholiad.

9 Ymrwymiad

9.1 Nid yw'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn ddogfen a orfodir yn gyfreithiol. Mae'n cydnabod yr amrywiaeth o droseddau a allai godi, a sut mae'n amhosibl gorchymyn sut y bydd pob un yn cael ei ymchwilio. Fodd bynnag, mae'r llofnodwyr i'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn derbyn yr egwyddorion a rolau a ddisgrifir ynddo ac yn ymrwymo eu hunain a'u sefydliad, er lles y cyhoedd, i ymdrechion ar y cyd i atal troseddau camymddygiad a thwyll etholiadol.

9.2 Mae'r APP ar blismona etholiadau yn ffurfio'r sail ar gyfer gweithio ar y cyd cyn ac yn ystod unrhyw etholiad.

9.3 Unwaith y derbynnir adroddiad bod camymddwyn etholiadol yn cael ei amau, mater i'r heddlu yw pennu'r lefel gymesur o ymchwiliad a dyrannu adnoddau gofynnol.

9.4 Gall rhai cwynion gael eu trin gan swyddogion heddlu lleol a staff yn ôl disgrisiwn y SPOC.

9.5 Dylai'r person sy'n gwneud yr honiad gael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar gynnydd yr ymchwiliad gan y SPOC heddlu.

9.6 Gellir dynodi SPOCs lleol i weithio ar lefel leol gyda staff etholiadol, a bydd y SPOC lefel yr heddlu yn sicrhau bod gorchymyn gweithredol cyffredinol yn cael ei baratoi, a chopi'n cael ei gyflenwi i bob SPOC lleol, swyddog cofrestru etholiadol, swyddog canlyniadau (gweithredol) a swyddog canlyniadau.

10 Cychwyn a hyd amser

10.1 Bydd y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn dod i rym ar ôl iddo gael ei lofnodi gan bob parti, hyd nes iddo gael ei derfynu neu ei ddisodli gan ddogfen ddiwygiedig.

10.2 Bydd pob parti yn adolygu effeithiolrwydd y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn (yn flynyddol neu ar gais y naill barti neu'r llall) ac wedi hynny caiff ei ddiwygio drwy gytundeb rhwng y partïon.

10.3 Tybir bod llofnodwyr y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn lofnodi ar ran eu sefydliad ac fel y cyfryw mae cyfeiriadau o'r fath at lofnodwyr yn ymwneud â chynrychiolwyr priodol y cyrff hynny sy'n gallu cynrychioli eu buddiannau at ddibenion y Memorandwm o ddealltwriaeth hwn.

11 Anghydfod

11.1 Os oes anghydfod ynghylch darpariaethau'r Memorandwm o ddealltwriaeth hwn, cyfrifoldeb rheolwyr lleol neu eu cynrychiolwyr yn y lle cyntaf fydd datrys y problem.

11.2 Os na all yr anghydfod gael ei ddatrys o fewn 10 diwrnod gwaith, caiff ei gyfeirio at reolwyr llinell y llofnodwr.

Llofnodwyd gan

(ar ran heddlu **)

.....Dyddiad...../...../.....

Llofnodwyd gan

(ar ran Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ardal awdurdod lleol **)

.....Dyddiad...../...../.....

Deunydd cyf 4

Cyfnodau allweddol yn y broses etholiadol

Bydd angen i'r awdurdod lleol gyfrannu at gynllun gweithredol yr heddlu drwy rannu gwybodaeth fel yr amlinellwyd a darparu mewnbwn i'r gorsafoedd pleidleisio lle y gall problemau godi. Gellir asesu gorsafoedd pleidleisio ar sail categori Coch, Ambr, neu Wyrdd i ddangos y gorsafoedd hynny sydd mewn risg uchel a risg isel. Bydd y dull hwn yn helpu wrth wneud penderfyniadau am y lefel o bresenoldeb heddlu a allai fod yn ofynnol ar ddiwrnod yr etholiad.

Yn ogystal, er mwyn helpu adeiladu cynllun gweithredol yr heddlu, gall y Rheolwr Safonau Etholiadol (RhSE) roi gwybodaeth i SPOC etholiad yr heddlu o ran cyfnodau allweddol yn yr amserlen etholiadol a allai sbarduno rhai mathau o weithgarwch camymddwyn.

Cyfnodau allweddol	Disgrifiad	Gwybodaeth gan RhSE/Gweithredu posibl gan y SPOC
Trosolwg	Darparu gwybodaeth etholiadol a hanes achos penodol (yn seiliedig ar ddigwyddiadau yn y gorffennol) ar draws yr ardal	Math o gamymddwyn ac ardaloedd posibl lle y gellir disgwyl gweithgaredd amheus Gwybodaeth i ategu gwybodaeth yr heddlu a helpu i wneud penderfyniadau ar lefel yr ymateb
Hysbysiad o etholiad	Dyddiad cychwyn ffurfiol amserlen yr etholiad	
Cau enwebiadau	Dyddiad cau ar gyfer y rhai sy'n sefyll yn yr etholiad i gyflwyno dogfennau cyfreithiol, gan ddatgan eu hunain fel ymgeiswyr Gall ymgeiswyr fod ag euogfarnau troseddol sy'n eu hatal rhag sefyll.	Data enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ar gael yn fuan ar ôl y dyddiad cau Gellir cymharu â chofnodion yr heddlu i nodi hanes unrhyw ymgeiswyr a allai effeithio ar eu cymhwysedd i sefyll a'r broses ddemocrataidd Dylai'r SPOC roi gwybod i'r Rheolwr Safonau Etholiadol am unrhyw bryderon a allai gael effaith ar y broses ddemocrataidd (ar yr amod bod hwn yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998) Mae ffurflenni enwebu yn cynnwys llofnodion y bobl sy'n llofnodi i gefnogi ymgeisydd. Gallai'r papur enwebu

		gynnwys llofnodion etholwyr sydd wedi'u ffugio. Bydd angen i'r SPOC gynnal ymchwiliadau lle gwneir honiadau mewn perthynas â hyn.
Cyhoeddi asiantiaid etholiadol	<p>Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeisydd mewn unrhyw etholiad (ar wahân i etholiadau cyngor plwyf neu gyngor cymuned) benodi asiant etholiadol</p> <p>Yr asiant etholiad yw'r person sy'n gyfrifol am arweiniad cyfreithiol ymgyrch yr ymgeisydd</p>	<p>Enw'r asiant etholiad a chyfeiriad data ar gael yn fuan ar ôl y dyddiad cau:</p> <p>Gellir cymharu â chofnodion yr heddlu i nodi hanes unrhyw asiant etholiadol a all gael effaith ar y broses ddemocrataidd</p> <p>Dylai'r SPOC roi gwybod i'r RhSE am unrhyw bryderon a allai gael effaith ar y broses ddemocrataidd (heb dorri'r gyfraith)</p>
Dyddiad cau ar gyfer cofrestru	<p>Yr amser diweddaraf i wneud cais i gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol. Y dyddiad cau penodol yw 12 diwrnod cyn yr etholiad ac, felly, mae'r amser sydd ar gael yn gyfyngedig i gynnal archwiliadau pan godir amheuan.</p> <p>Mae'r RhSE yn rhwym i amserlen statudol ar gyfer prosesu ceisiadau cofrestru, fel bod yr holl bobl sydd â hawl i gael eu cofrestru erbyn y dyddiad cau yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol i bleidleisio.</p> <p>Nod y drosedd i gofrestru pleidleiswyr ffug ('cysgod bleidleiswyr') yn dwyllodrus yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ennill pleidleisiau er mwyn ennill etholiad (yn enwedig lle mae'r seddi yn ymylol ac nid oes ond ychydig o bleidleisiau rhwng yr ymgeisydd sy'n ennill a'r un sy'n colli), neu • er mwyn ymrwymo mathau eraill o dwyll (ariannol, hunaniaeth). 	<p>Bydd y RhSE yn rhybuddio'r SPOC am lefelau uchel o geisiadau a dderbyniwyd, neu batrymau o bryder, yn agos at neu ar y dyddiad cau sy'n arwydd o gamymddwyn posibl.</p> <p>Bydd y RhSE yn rhybuddio'r SPOC am lefelau uchel o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno gan unigolyn a allai fod yn arwydd o gamymddwyn posibl. Gofal - mae'n bosibl bod ceisiadau o'r fath yn rhai bona fide mewn gwirionedd, ond bydd craffu gan y RhSE yn adnabod amheuan.</p> <p>Bydd angen ymateb prydlon gan y SPOC o ran cyfarfod â'r RhSE i adolygu ceisiadau cofrestru mewn swmp a dderbyniwyd, ble mae'r RhSE yn nodi amheuaeth ynghylch dilysrwydd.</p> <p>Lle'r amheuir cofrestriadau ffug, bydd angen i'r SPOC gychwyn ymholiadau ac ystyried anghenion casglu tystiolaeth.</p>

<p>Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy</p>	<p>Y dyddiadau diweddaraf y gall rhywun ar y gofrestr etholiadol wneud cais i bleidleisio drwy'r post, neu i wneud cais yn gyfreithiol (ac yn ysgrifenedig) i enwebu rhywun i bleidleisio ar eu rhan (pleidleisio drwy ddirprwy).</p> <p>Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yw 11 diwrnod cyn yr etholiad gyda'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy ddim ond 6 diwrnod cyn yr etholiad. Mae'r amser sydd ar gael yn gyfyngedig i gynnal archwiliadau pan godir amheuan.</p> <p>Mae'r RhSE yn rhwym i amserlen statudol ar gyfer prosesu ceisiadau post neu drwy ddirprwy, fel bod yr holl bobl sydd â hawl i dderbyn pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy erbyn y dyddiad cau wedi cael eu cynnwys.</p> <p>Nod y drosedd yw ennill pleidleisiau trwy dwyll trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gael a chwblhau pecynnau pleidleisiau post a fwriedir ar gyfer pleidleiswyr bona fide a heb eu gwybodaeth • ailgyfeirio a chwblhau pecynnau pleidleisiau post i gyfeiriadau eraill heb yn wybod i'r pleidleisiwr bona fide • gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy heb yn wybod i'r pleidleisiwr neu heb ei ganiatâd. 	<p>Bydd y RhSE rhybuddio'r SPOC am lefelau uchel o geisiadau a dderbynnir yn agos at neu ar y dyddiad cau sy'n dangos camymddwyn posibl.</p> <p>Bydd y RhSE yn rhybuddio'r SPOC am lefelau uchel o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno gan unigolyn a allai fod yn arwydd o gamymddwyn posibl. Gofal - mae'n bosibl bod ceisiadau o'r fath yn rhai bona fide mewn gwirionedd, ond bydd craffu gan y RhSE yn adnabod amheuan.</p> <p>Bydd angen ymateb prydlon gan y SPOC o ran cyfarfod â'r RhSE i adolygu ceisiadau cofrestru mewn swmp a dderbyniwyd, ble mae'r RhSE wedi nodi amheuaeth ynghylch dilysrwydd.</p> <p>Lle'r amheuir ceisiadau am bleidleisiau post ffug, bydd angen i'r SPOC gychwyn ymholiadau, ystyried anghenion casglu tystiolaeth a phenderfynu ar unrhyw gamau priodol a allai fod yn angenrheidiol, o ystyried yr amserlenni cyfyngedig sydd ar ôl cyn yr etholiad</p>
<p>Anfon pleidleisiau post</p>	<p>Fel arfer, mae pecynnau pleidleisiau post yn cael eu hanfon tua 4 diwrnod (gan gynnwys y penwythnos) ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, er y gallant gael eu hanfon yn gynt os y bu'n bosibl eu cynhyrchu.</p> <p>Bydd cynhyrchu'r pecynnau pleidleisiau post yn</p>	<p>Mae cyswllt cynnar ac agos gyda'r swyddfa leol didoli'r Post Brenhinol yn hanfodol. (Gweler canllawiau'r Comisiwn Etholiadol Pleidleisio drwy'r post - Canllawiau cyflym ar gyfer gyrrwyr y Post Brenhinol a staff cyflenwi (PDF))</p> <p>Mae hwn yn ddyddiad allweddol ar gyfer gweithgarwch yr heddlu mewn ardaloedd o bryder, ac yn ddyddiad y</p>

	<p>amodol ar amserlen y cwmni argraffu a'u gallu/capasiti i'w cynhyrchu. Gall niferoedd mawr effeithio ar y cynhyrchu a'r union ddyddiad ar gyfer eu hanfon.</p> <p>Nod y drosedd i ennill pleidleisiau'n dwyllodrus yw codi ofn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd arbennig trwy wneud ymweliadau i gartrefi yn fuan ar ôl i'r pecynnau pleidleisiau post gael eu danfon • ar weithwyr y Post Brenhinol Cyf i drosglwyddo pecynnau pleidleisiau post gwag yn hytrach na'u danfon i'r pleidleiswyr • ar bleidleiswyr i drosglwyddo eu pecynnau pleidleisiau post heb eu cwblhau • ar bleidleiswyr i drosglwyddo eu pecynnau pleidleisiau post a gwblhawyd at ddibenion eu hagog a'u newid, neu gyfarwyddo pleidleiswyr i wneud cais am becyn newydd a phleidleisio mewn ffordd benodol. 	<p>dylai'r RhSE ei hysbysu i'r SPOC. Bydd cyflenwi pecynnau pleidleisiau post gan weithwyr y Post Brenhinol yn dechrau ar y diwrnod ar ôl eu hanfon.</p> <p>Gall camymddwyn posibl ddigwydd trwy dargedu gweithwyr y Post Brenhinol i drosglwyddo pecynnau pleidleisiau post yn hytrach na'u danfon i'r pleidleisiwr.</p> <p>Gellir gweld digwyddiadau o godi ofn ar bleidleiswyr i roi eu pecynnau pleidleisiau post heb eu cwblhau neu wedi'u cwblhau i'r rhai sy'n dymuno cyflawni twyll etholiadol.</p> <p>Gall nifer fawr o becynnau pleidleisio drwy'r post a gollwyd neu a ddifethwyd mewn ardal benodol fod yn arwydd o dwyll. Gall pleidleiswyr gael eu dychryn i drosglwyddo pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau a chael eu cyfarwyddo i bleidleisio mewn ffordd arbennig gyda pheccyn newydd</p> <p>Yn ystod yr wythnos cyn yr etholiad, efallai hefyd y targedir blychau post er mwyn adfer yn anghyfreithlon becynnau pleidleisiau post a ddychwelwyd gan bleidleiswyr</p> <p>Efallai y bydd y RhSE yn derbyn honiadau gan bleidleiswyr ac/neu ymgeiswyr ac asiantiaid mewn perthynas â'r gweithgareddau a amlinellir uchod, a dylai'r rhain gael eu cyfeirio ar unwaith at y SPOC</p> <p>Efallai y bydd achosion lle ceir honiadau fod un person yn y cartref wedi cwblhau'r pecynnau pleidleisiau post dros pob aelod o'r aelwyd. Efallai y bydd yn angenrheidiol i'r Timau Plismona Bro neu'r SPOC ymweld ag ardaloedd lle mae pecynnau pleidleisiau post lluosog yn cael eu cyflenwi er mwyn atgyfnerthu'r neges</p>
--	--	---

		<p>y dylent gael eu cwblhau gan bob unigolyn a'u dychwelyd yn uniongyrchol i swyddfa'r swyddog canlyniadau</p> <p>Lle amheuir camymddwyn, bydd angen i'r SPOC gychwyn ymholiadau, ystyried anghenion casglu tystiolaeth ac ystyried ymweld ag ymgeiswyr a gweithwyr pleidiau mewn perthynas â'r honiadau a wnaed a'u dyletswydd i ddilyn Cod y Comisiwn Etholiadol ar ymddygiad ymgeiswyr a gweithwyr pleidiau.</p>
Penodi asiantiaid pleidleisio	<p>Pobl a benodir gan yr ymgeisydd i graffu ar yr achos ar ddiwrnod yr etholiad</p> <p>Mae asiantiaid pleidleisio yn cael eu penodi i fynychu gorsafoddedd pleidleisio penodol ac i ganfod camberonadu. Mae ganddynt hawl i gael eu lleoli o fewn yr ystafell lle bydd y bleidlais yn cael ei chynnal, er nad ydynt â hawl i ymyrryd yn y broses. Ar ôl marcio'r pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio ar eu copi o'r gofrestr, rhaid iddynt adael eu copi o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio. Dim ond ar ôl i'r pleidleisio gau y cânt symud y gofrestr a farciwyd oddi yno</p>	<p>Mae enw a chyfeiriad data asiantiaid pleidleisio ar gael yn fuan ar ôl y dyddiad cau</p> <p>Gellir cymharu â chofnodion yr heddlu i nodi hanes unrhyw unigolion a benodir a all effeithio ar y broses ddemocrataidd</p> <p>Dylai'r SPOC hysbysu'r RhSE am unrhyw bryderon a allai gael effaith ar y broses ddemocrataidd (heb dorri'r gyfraith)</p> <p>Rhaid bod yn ofalus nad yw unrhyw asiantiaid pleidleisio yn codi ofn ar bleidleiswyr neu'n cyfarwyddo pleidleiswyr sut i bleidleisio. Gallai ymddygiad o'r fath achosi tarfu o fewn yr orsaf bleidleisio os nad yw'n cael ei atal a gallai'r broses fod yn agored i her gyfreithiol. Mae'n bwysig bod y SPOC yn glir ynghylch ymyrraeth gadarnhaol os gofynnir am gymorth yr heddlu.</p>
Diwrnod yr etholiad	<p>Efallai y bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau a allai achosi tarfu ar ddiwrnod yr etholiad ac a fyddai angen sylw'r SPOC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anhrefn cyhoeddus • codi ofn ar bleidleiswyr • honiadau gan ymgeiswyr, asiantiaid, neu bleidleiswyr • camberonadu. 	<p>Camberonadu - Bydd staff yr orsaf bleidleisio yn cael arwydd o hyn pan fo etholwr bona fide yn galw i bleidleisio ond bod cofnodion yn dangos bod eu pleidlais eisoes wedi cael ei bwrw, neu pan godir amheuan gan ymddygiad amheus</p> <p>Gall asiantiaid pleidleisio a benodir gan ymgeiswyr yn yr orsaf bleidleisio atal ymdrechion o gambersonadu gan</p>

	<p>Dylai'r heddlu fod yn ymwybodol o unrhyw densiwn neu ddigwyddiadau sy'n codi a allai gynyddu'r tebygolrwydd o anrhefn cyhoeddus. Dylent ymateb gan ddefnyddio tactegau plismona cydnabyddedig.</p> <p>Nod y drosedd yw ennill pleidleisiau trwy dwyll trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Godi ofn ar bleidleiswyr wrth fynedfa'r orsaf bleidleisio, neu'r pleidleiswyr yn cael eu cyfarwyddo i bleidleisio mewn ffordd benodol ar ryw adeg arall cyn yr etholiad <p>Gall pleidleiswyr ofni ar gam bod y rhai y tu allan i'r orsaf bleidleisio â dylanwad a bod ganddynt fynediad at wybodaeth sy'n dangos sut y mae unigolyn wedi pleidleisio</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i honiadau gan yr holl randdeiliaid gael eu cofnodi a'u hasesu'n ffurfiol fel y gellir ymateb yn gymesur, os o gwbl, gan gymryd i ystyriaeth gytundebau blaenorol rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol <p>Er y gall honiadau o gamymddwyn etholiadol gael eu cadarnhau'n ddiweddarach, efallai hefyd y bydd achosion lle gwneir ymdrechion i achosi aflonyddwch drwy wneud honiadau di-sail. Mae'n bwysig i'r holl wybodaeth sydd ar gael ac unrhyw ymateb, a all gael eu craffu yn ddiweddarach, fod wedi eu hystyried yn briodol ac yn llawn. Er enghraifft, cofnodir honiadau trydydd-parti, heb eu profi, ond efallai nad ymchwilir iddynt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cambersonadu yw ymgais gan unigolyn i fwrw pleidlais ffug yn enw pleidleisiwr heb awdurdod 	<p>bobl sy'n hysbys i'r asiant pleidleisio</p> <p>Bydd cyngor y Comisiwn Etholiadol i swyddogion llywyddu ar gambersonadu yn rhoi canllawiau i staff yr orsaf bleidleisio ar beth i'w wneud os amheuir cambersonadu</p> <p>Gall y swyddog llywyddu ystyried galw'r heddlu a gofyn i'r rhai dan sylw ddisgwyl i'r swyddog heddlu gyrraedd</p> <p>Mae'n bwysig bod staff pleidleisio yn cofnodi gymaint o wybodaeth â phosibl am ddigwyddiad o'r fath (bydd y RhSE wedi darparu'r canllawiau a'r gwaith papur angenrheidiol i'r staff pleidleisio eu defnyddio i'r perwyl hwn) oherwydd bydd hyn yn cynorthwyo mewn unrhyw ymchwiliad dilynol</p> <p>Dylai comandariaid heddlu lleol sicrhau bod eu cynllun tactegol yn cynnwys y gallu i ymateb yn gyflym er mwyn delio â digwyddiad sy'n mynd yn ei flaen, os yn bosibl (e.e. os yw'r unigolion dan sylw yn dal yn i fod yn bresennol, neu i gasglu gwybodaeth gan staff pleidleisio) ac ar y cyfle cyntaf.</p> <p>Os yw pleidleiswyr yn cael eu hannog i beidio â mynd i mewn i orsaf bleidleisio, neu yn cael eu dychryn pan fyddant yn mynd i mewn i orsaf bleidleisio, efallai y bydd angen i'r heddlu ystyried gwasgaru'r rhai dan sylw o'r cyffiniau. Mae angen asesiad gwrthrychol o'r amgylchiadau cyn cymryd camau priodol.</p>
--	---	--

	<p>cyfreithiol i wneud hynny.</p> <p>Gall asiantiaid pleidleisio fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio pan fydd ymdrechion i gambersonadu yn digwydd a gallant ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog llywyddu (y person penodedig sy'n yn gyfrifol am yr orsaf bleidleisio) ofyn cwestiynau statudol i unrhyw bleidleisiwr dan amheuaeth o gyflawni'r drosedd hon.</p> <p>Rhaid i'r swyddog llywyddu, yn ôl y gyfraith, roi papur pleidleisio i berson os yw'r person hwnnw ar lafar yn cadarnhau ei hunaniaeth. Nid oes unrhyw eithriad i'r rheol hon, hyd yn oed os yw'r person yn cael ei amau o gambersonadu.</p>	
--	---	--

Deunydd cyf 5

Templed llythyr Prif weithredwr/prif gwnstabl

Templed llythyr prif weithredwr/prif gwnstabl i ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr i gytuno i gadw at y cod ymddygiad cenedlaethol

Cyfeiriad

Ein cyf: /Eich cyf: /Cysylltwch â: /

Ffôn: Ffacs: E-bost:

Dyddiad:

At:

Holl ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr

[Rhestrwch etholiad a/neu refferendwm a'r dyddiad]

Annwyl Ymgeisydd neu Asiant

[Teitl yr etholiad a/neu refferendwm a'r dyddiad]

Oddi wrth Brif Gwnstabl [rhowch enw'r heddlu] a'r Swyddog Canlyniadau/Cyfrif

Rydym yn ysgrifennu ar y cyd at yr holl ymgeiswyr ac asiantiaid yn [Teitl yr etholiad a/neu refferendwm a'r dyddiad] sydd ar y gweill. Rydym yn awyddus i bwysleisio'r angen i gynnal safonau uchel o ymddygiad gan bawb dan sylw.

Gyda'r amcan hwn mewn golwg, fe'ch gwahoddir i lofnodi'r datganiad gwirfoddol sy'n ymddangos ar ddiwedd y [Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio](#). Mae'r Cod wedi cael ei gymeradwyo gan y prif bleidiau gwleidyddol yn San Steffan a thrwy lofnodi rydych yn cadarnhau y byddwch chi a'ch cefnogwyr yn cydymffurfio ag ef. Byddai'r swyddog canlyniadau yn falch o dderbyn copi wedi'i lofnodi gennych.

Mae perthynas waith agos rhwng yr heddlu a staff y Swyddogion Canlyniadau/Cyfrif, a byddant yn gweithio'n unol â'r APP ar blismona etholiadau er mwyn atal a chanfod unrhyw gamymddwyn.

Fe'ch anogir i wneud eich hun yn gyfarwydd â'r Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio a sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio i chi yn rhinwedd unrhyw swydd yn ystod yr etholiadau

yn glynu'n gaeth at y Cod. Felly dylech sicrhau bod eich gweithwyr ymgyrch yn gyfarwydd â'i gynnwys.

Rydym am ei gwneud yn gwbl glir bod unrhyw gamddefnydd o'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn debygol iawn o fod yn drosedd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac ni fydd yn cael ei oddef. Disgwylir i bob ymgeisydd, asiant ac ymgyrchydd wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau nad yw eu gweithwyr ymgyrchu a chefnogwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw gamddefnydd o'r system ar gyfer pleidleisio drwy'r post nac unrhyw agwedd arall ar y trefniadau etholiad.

Dylid adrodd ynglŷn ag unrhyw amheuaeth o ymddygiad anghyfreithlon wrth y Swyddog Canlyniadau/Cyfrif neu'r heddlu. Yn eu tro, gallai'r Swyddog Canlyniadau/Cyfrif gyfeirio'r mater at yr heddlu. Bydd [enw'r heddlu] a Gwasanaeth Erllyn y Goron yn ystyried unrhyw dystiolaeth o ymddygiad anghyfreithlon, a chaiff erlyniadau eu dwyn yn erbyn y troseddwr os oes angen.

Yr ydym yn falch bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Comisiwn Etholiadol yn monitro'n agos yr achosion o gamymddwyn etholiadol honedig yng Nghymru a Lloegr. O'r ychydig iawn o achosion lle cadarnhawyd camymddwyn a lle cychwynwyd ar achos llys, mae'r rhan fwyaf wedi arwain at i'r troseddwr dderbyn dedfrydau sylweddol o garchar.

Gallwn eich sicrhau ein bod wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i atal unrhyw gynydd yn y nifer o achosion o gamymddwyn etholiadol honedig yn etholiad/ refferendwm [nodwch y dyddiad], a lle gwneir honiadau byddwn yn ymchwilio, a gall hynny arwain at erlyniadau.

Yn gywir

(E-lofnod)

(E-lofnod)

(Enw)

(Enw)

Swyddog Canlyniadau/Cyfrif

Prif Gwnstabl

Dim ond y slip canlynol ddylai gael ei gwblhau a'i anfon at y Swyddog Canlyniadau

Cwblhewch y ffurflen a'i hanfon ymlaen at y Swyddog Canlyniadau

Yr wyf i, (printiwch enw)sy'n sefyll fel ymgeisydd yn (printiwch ward/rhanbarth/arall)o Gyngor

yn cytuno i gadw at y Cod ymddygiad cenedlaethol ar gyfer ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafodded pleidleisio

Llofnodwyd

Dyddiad

Deunydd cyf 6

Templed llythyr hysbysiad am droseddau argraffnod DCyB

Noder: argymhellir bod hwn yn cael ei ddanfôn yn bersonol.

HEDDLU *** POLICE**

Ffordd ***** Road
Anytown B123 4AB

Eich cyf:

Ein cyf:

Os ydych chi'n ffonio gofynnwch am: -

DS xxxx A.N. Other

Ffôn uniongyrchol: *****

Ffacs: *****

E-bost: -

A.other@anytown.pnn.Police .uk

Typetalk 18000

xx Mai 20xx

Annwyl

Cyngor o ran Manylion sydd i Ymddangos ar Gyhoeddiadau Etholiad.

Cawsoch eich adnabod fel:

- *argraffydd deunydd etholiadol, sef...
- *hyrwyddwr deunydd etholiadol, sef...
- *person sydd wedi cyhoeddi deunydd etholiadol, sef ...
*(dilëwch fel bo angen)

Dylech fod yn ymwybodol bod angen i holl ddeunydd etholiadol gynnwys manylion, y cyfeirir atynt yn aml fel 'argraffnod', yn rhinwedd adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac Adran 143 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Y manylion hyn yw:

- a. enw a chyfeiriad argraffydd y ddogfen
- b. enw a chyfeiriad hyrwyddwr y deunydd
- c. enw a chyfeiriad unrhyw berson ar ran y sawl y cyhoeddir y deunydd (ac nad yw'n hyrwyddwr).

Nodwyd nad oedd y deunydd etholiad a nodir uchod yn cynnwys yr argraffnod angenrheidiol fel y pennir gan y gyfraith. Mae eich methiant i gynnwys y manylion argraffnod yn torri adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac mae'r gosb bresennol yn ddirwy ddiderfyn ar gollfarn ddiannod.

Gan nad yw'n ymddangos bod unrhyw ffactorau gwaethgol arall ac mai dyma'r tro cyntaf y mae wedi dod at ein sylw, ystyriwyd ei bod yn briodol rhoi'r llythyr hwn i chi. Os byddwch yn torri'r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol, gall y llythyr hwn gael ei gyflwyno fel tystiolaeth, ac mae'n debygol y cychwynnir ar ymchwiliad troseddol. Ni chymerir unrhyw gamau pellach ar yr achlysur hwn.

Ceir cyngor a chanllawiau ar faterion argraffnod a'r holl faterion etholiadol eraill gan eich swyddog canlyniadau lleol a'r Comisiwn Etholiadol, sy'n darparu cyngor cynhwysfawr mewn print, ar-lein a dros y ffôn.

Deunydd cyf 7

Canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â thystiolaeth

- Mae angen i staff awdurdod lleol ddilyn proses wrth drin tystiolaeth. Bydd hyn yn sicrhau y gall unrhyw ymchwiliadau diweddarach a dadansoddiad fforensig gael eu gwneud gan yr heddlu yn ôl yr angen a heb niwed i'r dystiolaeth bosibl.
- Dylai staff wisgo menig latecs/plastig wrth drin dogfennau amheus.
- Dylai staff osgoi trin dogfennau amheus gymaint ag sy'n bosibl, gan eu cyffwrdd ar yr ymylon yn unig, a'u gosod mewn waledi plastig, tryloyw unigol.
- Ni ddylid tynnu staplau ac ni ddylai'r ddogfen gael ei gwastadu neu ei newid mewn unrhyw ffordd.
- Dylai dogfennau amheus sydd wedi'i hamgáu mewn waled dryloyw gael eu llungopïo fel y gall gwaith y Gwasanaethau Etholiadol barhau - bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i gofnodi'r dogfennau dan sylw.
- Bydd yr heddlu yn cynghori ar sut i becynnu a chyflwyno unrhyw ddogfennau o'r fath.
- Rhaid i staff yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ond dylent hefyd ystyried pa gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i sicrhau, diogelu a
- cadw tystiolaeth, tra'n parhau i gwrdd â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Deunydd cyf 8

Enghraifft o argraffnod a rheolau cyffredinol argraffnodau

Enghraifft o argraffnod

Argraffwyd gan Argraffdy Armadillo Ltd, 20 Barry Avenue, Leeds.
Hyrwyddwyd gan J Smith ar ran y Grŵp Ymgyrchu, y ddau o 110 Stryd Fawr, Stafford.

Rheolau cyffredinol argraffnodau

Mae deunydd ymgyrchu a fwriedir i hyrwyddo etholiad plaid neu bleidiau gwleidyddol, neu grwpiau o ymgeiswyr, yn cael ei reoli gan reolau cyffredinol argraffnodau.

Enghreifftiau o ddeunyddiau sy'n cael eu cynnwys dan reolau cyffredinol argraffnodau

Pleidleisiwch i Blaid Joe Bloggs yn Ward X

Peidiwch â phleidleisio i Joe Bloggs yn Ward X

Deunydd cyf 9

Cysylltiadau allweddol

Cysylltiadau swyddfa CPS Llundain (nodyn: sicrhau cyswllt â SPOC etholiad yr heddlu yn gyntaf)

Zoe Martin
Ffôn: 0203 357 0279
zoe.martin@cps.gsi.gov.uk

Yr Is-adran Troseddau a Gwrthderfysgaeth Arbennig
Gwasanaeth Erllyn y Goron
102 Petty Ffrainc
Llundain SW1H 9EA
DX: 161330
San Steffan 11.

Cysylltiadau swyddfa CPS York (nodyn: sicrhau cyswllt â SPOC etholiad yr heddlu yn gyntaf)

Tara Wallis
Ffôn: 01904 545517
Tara.Wallis@cps.gsi.gov.uk

Simon Orme
Ffôn: 01904 545534
Simon-Timothy.Orme@cps.gsi.gov.uk

Yr Is-adran Troseddau a Gwrthderfysgaeth Arbennig
Gwasanaeth Erllyn y Goron
Tŷ Ffos
Pwll y Brenin
1-2 Peaseholme Green
York YO1 7PR
DX: 65204 YORK 6

Y Comisiwn Etholiadol

Mwy o gyngor:

Yn Llundain yn:
3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ

Richard Jordan
Uwch Gynghorydd (Hygrededd Etholiadol)
Ffôn: 020 7271 0562

Symudol: 07827 839000
rjordan@electoralcommission.org.uk

Robin Morris
Rheolwr Monitro a Chynghorydd SanCSIynau
Ffôn: 020 7271 0531
Symudol: 07467330205
rmorris@electoralcommission.org.uk

Dan Adamson
Pennaeth Monitro a Gorfodi
Ffôn: 020 7271 0631
Symudol: 07917 838165
dadamson@electoralcommission.org.uk

Tom Hawthorn
Pennaeth Polisi Etholiadol
Ffôn: 020 7271 0712
Symudol: 07917 838169
thawthorn@electoralcommission.org.uk

Cyfryngau:

Orla Hennessy
Rheolwr Cysylltiadau â'r Cyfryngau a Gwybodaeth Gyhoeddus
Ffôn: 020 7271 0695
ohennessy@electoralcommission.org.uk

Cysylltiadau rhanbarthol y Comisiwn Etholiadol

Tîm Dwyrain Lloegr a De-ddwyrain Lloegr
Philippa Saray
Ffôn: 020 7271 0538
PSaray@electoralcommission.org.uk

Tîm Llundain
Adrian Green
Ffôn: 020 7271 0538
AGreen@electoralcommission.org.uk

Tîm Canolbarth Lloegr:
Chris Hinde
Ffôn: 020 7271 0560
CHinde@electoralcommission.org.uk

Tîm Gogledd Lloegr:
Peter Forrester
Ffôn: 020 7217 0567
PForrester@electoralcommission.org.uk

Tîm De-orllewin Lloegr:
Adrian Green
Tel: 020 7271 0538
AGreen@electoralcommission.org.uk

Arweinydd Plismona Cenedlaethol

DCC Gareth Cann, Home Office, trwy:
Ditectif Brif Arolygydd John Askew
Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
Symudol: 07825 938808
j.askew@west-midlands.pnn.police.uk

Cymru

Heddlu:
Ditectif Arolygydd Nick Bellamy
Heddlu De Cymru
Ffôn: 01656 869211
Nick.Bellamy@south-wales.pnn.police.uk

Comisiynydd Etholiadol, Cymru
Robert Coombs
Uwch Swyddog Cyswllt Pleidiau Gwleidyddol
Ffôn: 029 2034 6806
rcoombs@electoralcommission.org.uk

Deunydd cyf 10

Honiadau blaenorol

Dyma enghreifftiau o honiadau blaenorol a ystyriwyd o dan adran 106 DCyB 1983. Bydd angen ystyried y cyd-destun penodol ym mhob achos.

Enw'r achos	Cyfeiriad	Enghreifftiau o ddatganiadau a wnaed mewn achosion yn ymwneud â datganiad o ffaith ffug o ran ymgeisydd	Trosedd o dan adran DCyB 106 1983 (neu adran 91(1) DCyB 1949?)
R (ar gais Woolas) v Llys Etholiad Seneddol	[2010] EWHC 3169 (Gwein)	'Mae wedi cefnu ar ei addewid i fyw yn yr etholaeth.'	Na. Penderfynwyd bod hwn yn ddatganiad ynghylch ymddygiad gwleidyddol yr ymgeisydd.
		Datganiad bod yr ymgeisydd wedi ceisio cael cefnogaeth etholiadol Mwslimiaid sy'n arddel trais, yn arbennig tuag at yr ymgeisydd oedd yn cystadlu yn ei erbyn.	Oedd. Penderfynwyd bod hwn yn ddatganiad ynghylch ei ymddygiad personol, ei fod yn caniatáu ymddygiad troseddol.
		Datganiad nad oedd yr ymgeisydd wedi gwrthod y gymeradwyaeth ohono gan grŵp eithafol nac wedi condemnio eu gweithredoedd.	Oedd. Penderfynwyd bod hwn yn ddatganiad bod yr ymgeisydd yn ddyn yr oedd ei gymeriad personol yn golygu ei fod yn gwrthod condemnio bygythiadau o drais.
DPP v Edwards	[2002] EWHC 636 (Gwein)	'Rhoddodd y Cynghorydd Llafur Harry Kilkeny gontract adeiladu gwerth £125,000 i'w fab-yng-nghyfraith tra'n eistedd fel cadeirydd tai.'	Oedd. Penderfynwyd bod hwn yn ymwneud ag ymddygiad a chymeriad personol Mr Kilkeny.
Pirbhai v DPP	CO/2963/94	'Osgowch Mr Straw sy'n casáu Mwslim [sic], oherwydd ei fod yn dod o deulu Iddewig ac mae Iddewon yn elyn i Islam ac ef yw teyrn y Blaid	Oedd. Penderfynwyd bod y datganiadau yn ymwneud ag ymddygiad a chymeriad personol

		Lafur.... Nid oes amheuaeth ei fod yn casáu Mwslim [sic].’	Mr Straw. Ar apêl, penderfynwyd bod y datganiadau ynglŷn â chyflwr meddwl Mr Straw yn medru bod yn ddatganiadau o ffaith o fewn adran 106.
Fairbairn v Plaid Genedlaethol yr Alban	[1979] SC 393	‘Mae staff Swyddfa Bost Tŷ'r Cyffredin... wedi dechrau cwyno bod post y lliwgar Nicholas Fairbairn AS na chasglwyd yn bygwth boddi eu gofod cyfan.’	Na. Penderfynwyd bod y geiriau y cwynwyd amdanynt yn adlewyrchu cymeriad cyhoeddus neu wleidyddol yr ymgeisydd, ond nid ei gymeriad personol.

Deunydd cyf 11

Rhestr wirio cysylltiadau SPOC etholiad yr heddlu/awdurdod lleol

Dyma restr wirio o bynciau y gellid eu hystyried yn y cyfarfod cynllunio cyn yr etholiad/refferendwm rhwng y SPOC a'r cyswllt a enwir o'r awdurdod lleol. Cafodd ei baratoi fel man cychwyn i weithio ohono, yn hytrach na'i fod yn nodi'r dull y mae'n rhaid ei ddilyn.

Gall y rhestr wirio fod o gymorth:

- fel sail ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod cynllunio cychwynol cyn yr etholiad/refferendwm ac mewn cyfarfod pellach unwaith y bo'r ymgeiswyr ac ymgyrchwyr cofrestredig yn hysbys
- i'r swyddog canlyniadau er mwyn sicrhau bod eu cynllun prosiect yn dangos bod prosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd o faterion hygrededd posibl a pha gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw faterion hygrededd o'r fath.

Cyffredinol

- Nodi enwau cyswllt ac amgen yn yr awdurdod lleol ar gyfer etholiadau a refferenda.
- Sefydlu pa drefniadau fydd yn eu lle ar gyfer unrhyw absenoldeb a gynlluniwyd, yn enwedig yn y cyfnod ar ôl y diwrnod pleidleisio.
- Cyfnewid manylion cyswllt rhwng pawb, gan gynnwys rhifau tu allan i oriau a rhifau ategol.
- Nodi a thrafod unrhyw faterion sy'n peri pryder neu risg sy'n codi o adolygiad o etholiadau blaenorol ac unrhyw faterion eraill a allai fod angen sylw penodol yn yr etholiad neu refferendwm nesaf. Er enghraifft:
 - Ymgeiswyr sy'n newydd i'r broses etholiadol. Gall yr ymgeiswyr hyn hefyd fod â chefnogwyr newydd sy'n ddibrofiad. Mae'n fwy tebygol y bydd agweddau ar y ddeddfwriaeth yn cael ei hanwybyddu'n anfwriadol, gan gynnwys ffurflenni enwebu, gan arwain at honiadau o gamymddwyn. Mae'r un materion yn berthnasol i ymgyrchwyr mewn refferenda.
 - Seddi a ymleddir yn agos, yn enwedig lle gall y rhain effeithio ar reolaeth gyffredinol yr awdurdod
 - Cystadlaethau mewn wardiau trefol a metropolitan, lle mae angen llai o bleidleisiau i ennill sedd o gymharu ag etholiad senedd y DU neu etholiad senedd Ewropeaidd.
 - Pan fo cymuned sydd â sgiliau iaith neu lythrennedd cyfyngedig a all fod yn fwy agored i dwyll neu'n llai tebygol o sylweddoli bod eu pleidlais wedi cael ei dwyn.
 - Gwiriadau hunaniaeth pleidleiswyr absennol ar draws ffiniau ar gyfer etholaethau senedd y DU ac Ewropeaidd.
 - Amserlenni ffurfiol gyda nifer fawr o geisiadau munud olaf i gofrestru i bleidleisio a/neu i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.
 - Diogelwch y pleidleisiau dros nos pan fo cyfrif yn digwydd ar ddydd Gwener.
- Nodi lleoliadau sydd yn hanesyddol wedi bod â digwyddiadau, neu sydd ar hyn o bryd yn dangos potensial ar gyfer risg. Sicrhau nad yw'r drafodaeth yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr ardaloedd hyn, a bod unrhyw fesurau a gynigir yn gymesur.

- Cyfeirio amheuron neu honiadau a gadarnhawyd. Er bod staff etholiadau mewn sefyllfa unigryw i nodi camarfer a'i bod yn ofynnol iddynt gyflawni rhai prosesau dilysu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith etholiadol, os oes unrhyw amheuron neu honiadau y gellir eu cadarnhau a bod yr achwynydd yn barod i wneud datganiad ysgrifenedig, dylai'r mater gael ei gyfeirio at SPOC etholiad yr heddlu i ymchwilio iddo.
- Cytuno ar bwyntiau sbardun neu drothwyon pryd y dylai materion gael eu hadrodd a phryd mae cyfuniad o faterion yn ddigon difrifol i warantu sylw brys.
- Egluro lle bydd SPOC etholiad yr heddlu yn gweithredu (fel honiadau o gamymddwyn etholiadol) a lle gall eraill weithredu ar faterion gweithredol, er enghraifft, wrth gynnal y drefn tu allan i orsafoedd pleidleisio.

Materion cyn etholiad a chyn refferenda

- Materion cofrestru (noder: mae'r rhain yn faterion sy'n dod o fewn cylch gwaith y swyddog cofrestru etholiadol yn hytrach na'r swyddog canlyniadau neu swyddog cyfrif), er enghraifft:
 - Ceisiadau cofrestru amheus a gyflwynir yn ystod cyfnod y canfas blynyddol.
 - Ceisiadau cofrestru amheus a dderbynnir y tu allan i'r cyfnod canfas blynyddol. Y tu allan i'r cyfnod canfas blynyddol cyhoeddir manylion am ychwanegiadau a dileadau i'r gofrestr bob mis.
 - Bydd hefyd yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol gyhoeddi dau ddiweddariad ychwanegol at y gofrestr yn y cyfnod hyd at yr etholiad. Gall hyn ysgogi heriau neu wrthwynebiadau ychwanegol i gofnodion ar y gofrestr.
 - Ceisiadau drwy'r post a thrwy ddirprwy amheus. Cytuno ar sbardunau ar gyfer adrodd ac ymateb yr heddlu.
- Efallai bod y cymhelliad ar gyfer cofrestru ffug yn ariannol neu'n drosedd arall heb fod yn etholiadol a fyddai'n cael ei hymchwilio gan dîm troseddau economaidd, neu debyg, yn hytrach na SPOC etholiad yr heddlu. Serch hynny, dylid o leiaf ystyried trosedd etholiadol DCyB 1983 yn yr ymchwiliad lle y bo'n briodol.
- Pan fo etholaethau seneddol y DU yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol, efallai y bydd angen i'r SPOC gysylltu â'r swyddog cofrestru etholiadol i bob ardal.
- Materion briffio ymgeiswyr/asiantiaid/ymgyrchwyr cofrestredig:
 - A fydd SPOC etholiad yr heddlu yn cael eu hysbysu a'i wahodd i fod yn bresennol?
 - Ystyried y [Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio](#) a [Pleidleisio drwy'r post - canllaw cyflym i weithwyr pleidiau \(canllawiau maint A5\)](#) cenedlaethol.
 - Sefydli p'un a gytunwyd ar god ymddygiad lleol sy'n mynd y tu hwnt i'r cod ymddygiad cenedlaethol cytunedig, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i weithwyr pleidiau beidio â thrin papurau pleidleisio a gwblhawyd (noder: os cynigir cod ymddygiad lleol, ni ddylid gosod unrhyw stigma ar unrhyw ymgeisydd neu blaid nad ydynt yn dymuno ei arddel).
- Materion strategaeth cyfryngau: Dylai'r heddlu a swyddogion y wasg y cyngor gyfnewid manylion cyswllt a sesiynau briffio fel y bo'n briodol.
- Materion trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd, er enghraifft, wrth gynnal trefn y tu allan i orsafoedd pleidleisio. Rhoddir papur pleidleisio i etholwyr sy'n ciwio tu mewn neu du allan i orsaf pleidleisio ar ddiwedd y bleidlais, a byddant yn cael pleidleisio. Dylid trafod y tebygolrwydd o'r angen am gymorth yr heddlu ar ddiwedd y bleidlais, a sut y gellid ei ddarparu.

Materion cyfnod yr etholiad/ refferendwm

- Trefnu cyfarfod ar ôl i'r enwebiadau gau neu benodiad ymgyrchwyr cofrestredig i adolygu strategaeth yng ngoleuni materion sy'n benodol i'r gystadleuaeth a'r ymgeiswyr, neu ymgyrchwyr refferendwm. Er y bydd enwebiadau ar gyfer etholiadau'r senedd Ewropeaidd ac etholiadau lleol yn cau ar yr un pryd, dylid nodi y bydd enwebiadau'r senedd Ewropeaidd yn mynd i'r swyddog canlyniadau rhanbarthol ac enwebiadau lleol (megis mewn etholiadau cyngor dosbarth) yn mynd i'r swyddog canlyniadau awdurdod lleol perthnasol.
- Mae DCyB 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cofrestru etholiadol gyhoeddi dau ddiweddariad ychwanegol i'r gofrestr yn ystod cyfnod yr etholiad.
- Trafod unrhyw fater sy'n codi o faterion cardiau pleidleisio
- SPOC etholiad yr heddlu i gael gwybod am faterion cyflenwi pleidleisio drwy'r post, er enghraifft:
 - Grŵp y Post Brenhinol Cyf neu ddull arall o gyflenwi
 - dyddiadau cyflenwi yn ôl ardal
 - cysylltu â'r cyswllt Post Brenhinol ar gyfer yr etholiad/ refferendwm
 - dosbarthu'n fewnol [Pleidleisio drwy'r post - canllawiau cyflym i yrwyr y Post Brenhinol a staff danfon Grŵp y Post Brenhinol Cyf](#)
- Materion agor pleidleisiau post, er enghraifft:
 - dyddiadau ac amseroedd a gynlluniwyd
 - presenoldeb yr heddlu
 - prosesau dynodwyr
 - agor arbennig o bleidleisiau post amheus, os oes angen
 - gweithdrefnau powdr gwyn mewn amlen.
<http://www.cpni.gov.uk/advice/physical-security/screening/mail-and-deliveries/>
- Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith etholiadol sy'n galluogi heddwys yn benodol i fynychu unrhyw sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post. Anogir SPOC etholiad yr heddlu i fynychu sesiwn agor pleidleisiau drwy'r post i gael cipolwg ar y broses. Y dull a argymhellir yw bod SPOC etholiad yr heddlu yn gwneud cais i'r Comisiwn Etholiadol am achrediad fel sylwedydd swyddogol ar y cyfle cyntaf. Mae'n bwysig bod SPOC etholiad yr heddlu yn osgoi bod yn rhan o'r broses. Os bydd yr angen am ymchwiliad yn codi, dylai hyn gael ei gynnal ar ôl y digwyddiad.

Materion diwrnod pleidleisio

- Cyswllt yr awdurdod lleol i ddarparu rhestr o orsafoedd pleidleisio.
- Dylai SPOC etholiad yr heddlu drafod y lefel o gefnogaeth heddlu a roddir i orsafoedd pleidleisio neu gefnogaeth symudol. Noder: mae gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, yn ogystal â swyddogion yr heddlu, hawl i fynd i mewn i orsafoedd pleidleisio.
- Canllawiau cambersonadu a ffurflen datganiad.
- Trafod y camau gweithredu mewn perthynas ag aflonyddwch o fewn gorsaf bleidleisio a chynnal y drefn tu allan i orsaf bleidleisio yn enwedig ar ddiwedd y bleidlais.
- Rhifwyr - pa drefniadau lleol sydd yn eu lle?
- Materion sy'n ymwneud â chasglu pleidleisiau drwy'r post, er enghraifft:
 - A fydd pleidleisiau post yn cael eu casglu o orsafoedd pleidleisio yn ystod y dydd?
 - A ddisgwylir unrhyw broblemau, ac a fyddai'n ddoeth cael cymorth yr heddlu?

- Pa drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer diogelwch dros nos a dros dro papurau/ blychau pleidleisio, yn enwedig ar gyfer papurau pleidleisio i'r senedd Ewropeaidd, hyd nes eu bod yn cael eu cyfrif ar y dydd Sul canlynol?
- Materion yn ymwneud â'r cyfrif, er enghraifft:
 - Pryd a lle fydd yn digwydd (wedi ei ganoli ynteu'n ddatganoledig)?
 - Presenoldeb yr heddlu a diogelwch arall yn y lleoliad(au) - yn benodol, rheoli mynediad i'r lleoliad a monitro pwy sy'n bresennol.
 - Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â datganiadau pleidleisio drwy'r post amheus.
 - Papurau pleidleisio drwy'r post a farciwyd â hylif cywiro.

Materion ar ôl yr etholiad

- Honiadau o gamymddwyn.
- Datganiadau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd.
- Mae dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol o dan DCyB 1983 i hysbysu pob etholwr y mae eu pleidlais drwy'r post wedi ei gwrthod. Gall hyn arwain at honiadau o gamymddwyn etholiadol a nodir gan naill ai'r swyddog canlyniadau neu'r etholwyr eu hunain. Dylai'r SPOC a'r swyddog canlyniadau egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys honiadau o'r fath.
- Mynediad at ddogfennau.
- Cofnodi camau gweithredu a thrywydd archwilio.
- Adrodd ynglŷn â honiadau i Ganolfan Gydlynu Genedlaethol yr Heddlu.

Deunydd cyf 12

Cynnal y drefn ac atal dylwanadu gormodol y tu allan i orsafoedd pleidleisio

Cefndir

1. Dylid sicrhau trefn dda tu allan i orsafoedd pleidleisio. Ar adegau, fodd bynnag, mae digwyddiadau yn codi yng nghyffiniau gorsafoedd pleidleisio sy'n arwain at wneud cwynion a honiadau i'r heddlu a/neu'r swyddog canlyniadau. Cynlluniwyd y ddogfen hon i helpu'r heddlu feddwl am y ffordd orau o ymdrin â'r mater o blismona gorsafoedd pleidleisio ac mae'n cynnig rhai camau ymarferol i'w helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd problemau yn codi, ac i ddelio ag unrhyw rai sydd yn codi.

2. Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at bwynt cyswllt sengl etholiad yr heddlu (SPOC) ond efallai y bydd o ddefnydd i'r swyddog canlyniadau, swyddogion llywyddu, clercod pleidleisio a staff eraill y swyddog canlyniadau. Dylid ei darllen ar y cyd ag adran 3 y *Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio*.¹

Noder: Yn flaenorol cyflwynwyd y cyngor hwn yma o dan y pennawd *Cynnal y drefn y tu allan i orsafoedd pleidleisio*. Diben y nodyn cyngor hwn yw sicrhau'r canlynol:

- cynhelir trefn dda y tu allan i orsafoedd pleidleisio;
- gwneir pob ymdrech i osgoi bod pleidleiswyr yn dioddef dylanwadu gormodol wrth geisio mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i fwrw eu pleidlais;
- gall rhifwyr² gyflawni eu rôl bwysig.

Amlygwyd yn ddiweddar³ pa mor anodd yw gweithredu trosedd adran 115 RPA (1983) pan fydd pleidleiswyr yn ystyried eu bod wedi'u dychryn neu eu poeni y tu allan i orsaf bleidleisio wrth gyrraedd i bleidleisio. Mae dau fater gwahanol y dylid eu hystyried:

- Pobl yn ymgasglu y tu allan i orsaf bleidleisio

Os bydd llawer o bobl yn ymgasglu y tu allan i orsaf bleidleisio i'r graddau na all pleidleiswyr fynd i mewn heb anhawster, yna dylid ystyried defnyddio pwerau trefn gyhoeddus i wasgaru'r rheini nad oes angen iddynt fod yno.

- Dylanwadu'n ormodol ar etholwyr sydd am bleidleisio

Os bydd unrhyw arwydd gan bleidleiswyr neu ymgyrchwyr eraill y gall pobl fod yn dioddef

¹ http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/179740/Welsh-language-Code-of-conduct-for-campaigners-2015.pdf

² Mae rhifwyr yn rhan sefydledig o'r broses ddemocrataidd er nad oes ganddynt hawliau cyfreithiol. Mae rhifwyr fel arfer yn wirfoddolwyr ar ran ymgeiswyr, pleidiau neu ymgyrchoedd sydd wedi'u lleoli y tu allan i orsaf bleidleisio i ofyn i bleidleiswyr am eu rhif etholwr i weld a yw eu cefnogwyr wedi dod. Nid yw'r gweithgaredd hwn yn anghyfreithlon a gall helpu i gynyddu niferoedd drwy ganiatáu ymgyrchwyr i gysylltu ag etholwyr nad ydynt wedi pleidleisio. Fodd bynnag, gellir ystyried bod rhifwyr yn rhwystro, yn atal neu'n dychryn etholwyr are eu ffordd i mewn i'r orsaf bleidleisio/lleoliad. Mater i'r Swyddog Llywyddu a'r Swyddog Cyfrif fydd unrhyw benderfyniad ynghylch lleoliad neu ymddygiad rhifwyr, ac mae'n rhaid i rhifwyr gymyffurfio â'u cyfarwyddiadau.

³ Gweler Erlam & Ors v Rahman & Anor [2015] EWHC 1215 (QB) paragraffau 163 – 169 a 575 – 624. <http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/QB/2015/1215.html>

dylanwadu gormodol neu fygyly yna byddwch yn glir ynglŷn â sut y byddwch yn delio â hynny gan gyfeirio at y drosedd benodol

Os na roddir amlygrwydd i ddylanwadu gormodol y tu allan i orsafoedd pleidleisio yn y sesiwn briffio ar gyfer swyddogion yr heddlu yna mae perygl y gallai ddigwydd heb ei weld na'i wirio.⁴

Egwyddor/ blaenoriaeth gyffredinol

3. Y flaenoriaeth i'r heddlu yw gwarchod hawl pleidleiswyr i fwrw eu pleidleisiau yn rhydd, a hefyd hawl ymgyrchwyr i ymgyrchu. Dylai unrhyw weithredu gan yr heddlu ei gwneud yn glir bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu diogelu.

4. Mae'r broses o fynd yn bersonol i orsaf bleidleisio i fwrw pleidlais yn cael ei hystyried gan lawer fel digwyddiad cymdeithasol, nid fel dyletswydd ddinesig yn unig. Mae'n gyfle i gyfarfod â ffrindiau, cymdogion a hyd yn oed ymgeisydd neu asiant cyn neu ar ôl bwrw eu pleidlais. Mae'r rhyngweithiad yn rhan naturiol o gymdeithas ddemocrataidd ac ni ddylid ei wrth-annog. Dylai hon fod yn brif ystyriaeth i'r swyddog llywyddu, swyddog canlyniadau, ymgeisydd, asiant, rhifwr neu heddwes cyn y cymerir camau i wasgaru pobl a allai ymgynnull y tu allan i orsaf bleidleisio.

5. I rai, gall grŵp o bobl y tu allan i orsaf bleidleisio ymddangos yn ddiniwed a heb fwiad maleisus. Fodd bynnag, efallai y bydd eraill yn eu gweld fel rhywbeth bygythiol a rhwystrol. Gellir gwaethygu'r sefyllfa os oes cystadleuaeth wleidyddol agos, er enghraifft, gydag un ochr yn amheus o weithrediadau'r ochr arall, neu eu bod yn syml eisiau portreadu'r parti arall mewn goleuni anffafriol. Mae'n anodd penderfynu sut orau i ymateb i sefyllfa o'r fath heb bechu yn erbyn un ochr neu'r llall. Y canllaw cliriaf yw bod rhaid i fuddiannau'r pleidleisiwr fod yn flaenoriaeth.

Troseddau posibl

6. Er bod yna drosedd o ddylanwad gormodol, mae ystod o bwerau eraill ar gael i'r heddlu wrth ystyried sut i fynd i ymdrin â digwyddiadau o'r fath. Dyma rai enghreifftiau:

- Deddf Priffyrdd 1980 – adran 137 – rhwystro'r briffordd
- Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 – adrannau 4, 4A a 5 – ymddygiad bygythiol/ aflonyddu
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 – adran 39 – ymosodiad cyffredin/ curfa
- Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 – adran 47 – ymosodiad yn achosi niwed corfforol gwirioneddol
- Deddf Difrod Troseddol 1971 – adrannau 1, 1(2) a 2 – difrod i eiddo
- Pŵer cyfraith gwlad i arestio – mewn perthynas â thorri'r heddwch.

Gweithio i atal digwyddiadau y tu allan i orsafoedd pleidleisio

7. Dylai'r rhai sy'n sefyll etholiad ac/neu ymgyrchu a'u cefnogwyr ymroddi i wneud popeth o fewn eu gallu i annog etholwyr i droi allan i bleidleisio. Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad etholiad neu refferendwm, mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell bod swyddogion canlyniadau yn trefnu cyfarfod gydag ymgeiswyr, asiantiaid, rhifwyr ac ymgyrchwyr ar y cyfle cyntaf yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad etholiad neu refferendwm i gyfleu'r un neges i bawb dan sylw. Bydd

⁴ Noder bod y Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi beth y dylid ac na ddylid eu gwneud ar gyfer rhifwyr y dylid eu cynnwys mewn unrhyw sesiwn briffio i sicrhau bod unrhyw ymyrraeth yn briodol: http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/198722/EU-Ref-Tellers-dos-and-donts-W.pdf

hyn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r amgylchiadau lleol ac yn cynnal eu hymgyrch yn ôl yr un canllawiau. Gellir achub y blaen ar broblemau drwy drafod ymgyrchu mewn mannau pleidleisio ac ymddygiad rhifwyr, a chyrraedd consensws ymhlith y rhai sy'n bresennol ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol, yn enwedig p'un a ddylid casglu rhifau etholwyr wrth i bleidleiswyr fynd i mewn ynteu wrth iddynt adael yr orsaf bleidleisio. Dylid dosbarthu canllawiau mewn cyfarfodydd cyn yr etholiad/ refferendwm.

8. Rhestrir isod baratoadau penodol a allai helpu atal neu ymdrin â phroblemau:

- Dylai'r SPOC gytuno ar y dull i'w fabwysiadu a'r safonau ymddygiad sy'n dderbyniol gyda chyswllt yr awdurdod lleol, pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr cyn yr etholiad.
- Gall y SPOC ofyn i gyswllt yr awdurdod lleol weld a all swyddogion llywyddu fonitro a chynghori ar ddigwyddiadau honedig y tu allan i'w gorsaf bleidleisio.
- Os na allant siarad â phawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod a drefnwyd gan y swyddog canlyniadau, gall y SPOC gysylltu ag asiantiaid bob plaid neu ymgeisydd cyn y bleidlais i ofyn am eu cyngor i helpu atal problemau'n ymwneud â'u cefnogwyr a all godi cyn neu yn ystod y bleidlais, a'r hyn y maent yn barod i'w wneud i ddatrys yn brydlon unrhyw broblem sy'n codi.
- Dylai'r SPOC gytuno gyda'r cyswllt awdurdod lleol pa mor gyflym y dylai cefnogaeth weithredol gael ei defnyddio i ddatrys ddigwyddiad yn yr orsaf bleidleisio neu yn ei chyffiniau. Gall hyn amrywio yn ôl lefel y risg a nodwyd.

Beth i'w wneud pan fo pryderon ynghylch cadw trefn y tu allan i orsaf bleidleisio

9. Dylai pawb fod yn effro i p'un a yw ymddygiad y tu allan i orsafoedd pleidleisio yn effeithio ar bleidleiswyr ai peidio.

10. Mae rhifwyr yn rhan sefydledig o'r broses ddemocrataidd, er nad oes ganddynt unrhyw statws yn y gyfraith. Maent fel arfer yn gwirfoddoli ar ran ymgeiswyr, pleidiau neu ymgyrchoedd, ac maent yn cael eu lleoli'r tu allan i orsaf bleidleisio i ofyn i bleidleiswyr am eu rhif etholwr, er mwyn gweld a yw eu cefnogwyr wedi troi allan. Efallai wedyn y cysylltir â phleidleiswyr sydd heb eto bleidleisio yn ystod y diwrnod pleidleisio i'w perswadio i bleidleisio, a allai helpu cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio. Fodd bynnag, gall rhai ystyried rhifwyr fel rhwystr, yn atal neu'n dychryn etholwyr ar eu ffordd i mewn i'r orsaf bleidleisio/man pleidleisio. Mae unrhyw benderfyniad ynghylch lleoliad neu ymddygiad rhifwyr yn fater i'r swyddog llywyddu a'r swyddog canlyniadau/swyddog cyfrif, ac mae'n rhaid i rifwyr gydymffurfio â'u cyfarwyddiadau.

11. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am ymddygiad yng nghyffiniau gorsaf bleidleisio at y swyddog llywyddu perthnasol yn y lle cyntaf, fel y gall staff yr orsaf bleidleisio ymdrin â'r mater a'i fonitro. Fodd bynnag, er bod gan swyddogion llywyddu gyfrifoldeb i sicrhau bod etholwyr yn cael cyfle i fwrw eu pleidlais mewn modd rhydd a theg, nid yw eu hawl i weithredu yn mynd tu hwnt i'r orsaf bleidleisio.

12. Os nad yw'n bosibl cysylltu â'r swyddog llywyddu, neu os na all y mater gael ei ddatrys gan y swyddog llywyddu i foddhad yr achwynydd, dylid cysylltu â'r swyddog canlyniadau neu aelod o staff y swyddog canlyniadau.

13. Efallai y bydd y swyddog canlyniadau neu ei staff yn ceisio datrys y mater trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n peri pryder. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r swyddog canlyniadau neu ei staff gysylltu â'r ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd, neu, os yw'r ymgeisydd yn sefyll mewn etholiad ar ran plaid wleidyddol, swyddogion y blaid honno, a chynghori'r heddlu.

14. Efallai y caiff y gŵyn ei gwneud yn uniongyrchol i'r SPOC neu'r heddlu lleol. Os nad yw'r camau gweithredu anffurfiol a amlinellir uchod yn datrys y broblem, byddai'n briodol ystyried defnydd o bwerau'r heddlu neu ofyn i bobl symud.

15. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn cefnogi'r farn nad oes neb wedi ei erlyn am ddylanwad gormodol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n fwyaf tebygol bod camau adferol gan yr heddlu, er enghraifft, gofyn i bobl symud, wedi cael yr effaith a ddymunir, heb yr angen i droi at erlyniad, yn enwedig lle nad oedd bwriad i achosi dylanwad gormodol.

17. Os ydynt yn ansicr, cynghorir swyddogion llywyddu, swyddogion canlyniadau a swyddogion cyfrif y dylent ystyried beth fyddai arsylwr rhesymol yn ei feddwl. Dylai'r ystyriaeth hon gael ei defnyddio wrth ystyried gweithrediadau unrhyw un yng nghyffiniau gorsaf bleidleisio.